

CLONC



ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 296 - 60c
Medi 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Ar dramp
yn
Slofenia



Tudalen 5

Cadwyn
cyfrinachau
yr ifanc



Tudalen 16

Eisteddfod
R T J
Llambled



Tudalen 26

Pobl leol yn llwyddo yn y Genedlaethol



Parti Sarn Helen a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i bartïon llefaru yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011.



Sian Elin Williams, Muriau Gwyn, Pencarreg, Llanybydder a enillodd y wobr gyntaf, gan dderbyn Medal Goffa Huw Rowlands, yng nghystadleuaeth Monolog 12-16oed yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011

100 oed

Mrs Ada Williams, Bryn Merau, Llanybydder [Ada, Fferm Dolgader] yn torri cacen y dathlu ym mharti ei phenblwydd yn **100 oed** yng Nghanolfan Dydd Hafan Deg, Llambled yn ddiweddar.



Cartrefi'r Cwm Cyf

**GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS**



**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

**FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL**

07814 027849



**CYFLENWI
LLORIAU PREN
CALED A'U GOSOD**

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnachol
Newydd**

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:*
01570 421421

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd**
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421



CYFRI

**CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS**

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

**Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)
Eleri Thomas BSc(Hons), Cert PFS**

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

**9fed o
Fedi 2011**

**Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30**

**Neuadd
Felin-fach**

**Anweinydd y noson
Geraint Lloyd**

**Beirniad
Dewi 'Pws'**

Mynediad £1

Y TINCER

Y Barcud

y Garthen

Yr Angor

Llais Aeron

CLONC

Y DOLLEN

Y Gambo

O'r Llwyfan

**Stori
gelwydd**

**Sgetsh gyda dim
mwy na chwech mewn
nifer yn y grŵp, i bara
dim mwy na phum
munud. Testun -
unrhyw arddull yn
ymwneud â phapur bro**

**Datganiad ar yr
organ geg, i bara
dim mwy na
thair munud.
Hunan
ddewisiad**

**Llefaru -
darllen
darn heb
ei atalnodi**

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3
i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tîws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd
â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Cefnogwch eich papur bro!

y Lolfa

**YR ARIANNOL
YMERAEU-WELSH
LANGUAGE BOARD**

CEREDIGION

**Dewch draw am noson o
hwyl a hiwmor.**

**Mae Papur Bro Clonc
angen eich cefnogaeth
hefyd.**

**Beth am roi cynnig ar un
o'r cystadlaethau?**

Mwy o fanylion oddi wrth:

Cered, Campws Addysg Felin-fach, Dyffryn Aeron, SA48 8AF
(01545 572350) cered@ceredigion.gov.uk

**Gorsaf
Brawf
MOT**

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Breics * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Medi Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Hydref Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin 01545 571234
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmstychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Mae ail ddechrau'n anodd.

Un peth yw mwynhau gwyliau ond mae ail gydio yn y gwaith yn medru bod yn galed. Mae cymaint wedi digwydd yn ystod y ddau fis diwethaf yn ei gwneud hi'n anodd i wybod ble mae dechrau. Fel Cymro un o'n hoff ffordd o gyfarch rhywun yw sôn am y tywydd. Nid yw wedi bod yn dywydd i ymffrostio ynddo; mae'n dwyn i gof ddywediad y diweddar Ryan Davies, "Fe gollais i'r Haf llynedd" meddai, "rown i yn y bath!" Profiad go debyg yw hi i lawer ohonom eleni.

Llongyfarchiadau

Erbyn hyn mae canlyniadau'r arholiadau wedi cyrraedd. Y mwyafrif yn bles, gobeithio. Pob llwyddiant i'r dyfodol, ac os na chawsoc'h eich plesio peidiwch a rhoi'r ffidl yn y to, dyfal donc yw'r rhy sydd angen. Cofiwch hefyd fod personoliaeth hyfryd yn medru mynd â chi yn bell. Yn ychwanegol i arholiadau mae'r Eisteddfod a'r Sioeau wedi mynd heibio. Hyfryd oedd gweld cymaint o lwyddiant wedi dod i ddalgylch Clonc.

Diau y bydd cyfeiriadau cyson at wahanol lwyddiannau o fewn y rhifyn yma. Dim ond ychwanegu, 'Da iawn a daliwch ati!'

Paentio yn creu problem!

Wrth drefnu trip yn ddiweddar bu'n rhaid mynd yn y car wythnos yng nghynt i drefnu'r daith. Bu'n rhaid sicrhau fod yr heolydd yn ddigon llydan i'r bws. I gyrraedd Llangynwyd rhaid oedd troi gogyfer â thafarn arbennig. Rhwydd i gofio gan fod enw'r dafarn mewn

llythrennau breision. Diwrnod y trip, cyrraedd y fan a dim sôn am y dafarn yn un man. Roedd yr ateb yn syml – y dafarn newydd gael côt o baent ac heb roi'r enw nôl. Digwyddodd hyn i ni flynyddoedd yn ôl wrth drefnu taith ddirgel. Un o'r cliwiau mewn paent gwyrdd ar ddrws. Wrth fynd dros y daith y noson cynt, y drws yn cael ei baentio.

Teledu'r Saeson!

Cafwyd dwy gêm o Rygbi ddiddorol rhwng Cymru a Lloegr yn ddiweddar. Wedi'r gêm gyntaf a Lloegr yn ennill, - y BBC yn rhoi manylion ar y teledu gyda lluniau o'r uchafbwyntiau. Y Sadwrn canlynnol a Chymru'n fuddugol dim gair a dim llun. Collwyr gwael? Tybed!

Arferion Claddu

Ar y radio y bore yma 'roedd eitem ddiddorol iawn yn sôn am arferion claddu. Soniwyd am un gwlad lle'r arfer oedd rhoi'r corff allan yn yr awyr agored i'r anifeiliaid gael ei bwydo. Roedd y tywydd mor galed fel nad oedd gobaith agor bedd. Na, nid oeddwn yn hoffi'r syniad na o gwbl, ond rwy'n credu fod ein llywodraeth yn colli cyfle wrth wneud i ffermwyr gliro pob anifail marw o'r fferm. Ble mae'n adar ysglafaethus yn mynd i gael bwyd wedyn. Ymosod ar anifeiliaid byw? Mae'n berygl weithiau peidio meddwl ddigon ymlaen. Yn naturiol ni ellir gadael pob anifail marw ar y tir, ambell un nawr ac yn y man efallai – ond pwy sy'n mynd i wneud y penderfyniad yna?

Pob hwyl, CLONCYN

Gohebiaeth Clonc



RHWNG GWIBDAITH A COLDPLAY gan Gerwyn Williams

Cyfrl a lansiwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a ddylai fod o ddiddordeb i ddarlennwyr Clonc yw Rhwng Gwibdaith a Coldplay. Bu Gerwyn yn byw yn Dwyfor, Maesllan, Llambled yn ystod y 1980au pan enillodd Fedal Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd yn 1983 a 1984. Roedd ei dad, Dafydd Henry Williams, yn Rheolwr ar Fanc y Natwest, a'i fam, Catherine, yn aelod o amryw gymdeithasau yn y dref fel Merched y Wawr. Yn 1994 enillodd Gerwyn Goron yr Eisteddfod Genedlaethol.

Erbyn hyn mae ef a'i deulu'n byw ym Mhenrhosgarnedd ac yntau'n Athro yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Mae'r gyfrl hon yn cynnwys amrywiaeth o'r dwys a'r digri, y llon a'r lleddf, a'r cerddi wedi eu gosod yng Nghymru a thramor.

Dyma'r gyfrl gyntaf o'i bath iddo ei chyoeiddi ers 2003 pan gyhoeddodd Tafarn Tawelwch a chyn hynny Cydio'n Dynn yn 1997, ac fe'i cyhoeddodd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

Gwaith Cartref' – cyfres ddrama newydd i'r Hydref, ar S4C

Carwen Richards gafodd gipolwg ar y bennod gyntaf, ar gyfer Clonc. Yn yr adolygiad byr hwn rwyf am roi sylw i bennod gyntaf 'Gwaith Cartref'. Da yw gweld darlun realistig o fywyd ysgol, drwy lygaid yr athrawon, ym mhennod gyntaf y ddrama hon. Wrth wyllo'r bennod, o safbwynt disgybl yn Ysgol Gyfun Llambled, teimlaf fod hyn yn effeithiol ac yn mynd i ennyn diddordeb plant yr un fath â fi. Ro'n i'n hoff iawn o wisgoedd deniadol a phwrpasol yr athrawon hefyd- i mi, roedd gan bob athro wisg benodol i ddynodi eu personoliaethau. Ro'n i'n gweld tebygrwydd rhwng 'Gwaith Cartref' a'r rhaglen Saesneg ar BBC, 'Waterloo Road'. Er hynny, gwelir pwyslais ar ddarlun Cymreig Ysgol Bro Taf a braf yw gweld ein bod ni'r Cymry yn medru creu drama yr un mor dda, os nad gwell na'r BBC yn Saesneg! Roedd yr hiwmor yn bwrpasol; yn ddigonol ond ddim yn ormodol. Rwy'n edrych ymlaen yn arw at weld gweddill y gyfres.

Yn cychwyn nos Sul 18 Medi am 9 o'r gloch yr hwyr.



Ennill yn Wrecsam

Llongyfarchiadau i Barti Sarn Helen ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth i bartion llefaru hyd at 16 o leisiau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam ddechrau Awst, a hynny yn erbyn 11 o bartion eraill. Mae'r grŵp wedi ei sefydlu ers chwe mlynedd bellach ond dyma'r tro cyntaf iddynt ennill y wobwr hon. Maen nhw'n cyfarfod yng Nghwm-ann ac yn cael eu hyfforddi gan Elin Williams.

Diolch

Dymuna Elan a'r teulu, Araul, Cwmann ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn, rhoddion a dymuniadau da a dderbyniodd tra bu am gyfnod yn ysbyty'r Heath yng Nghaerdydd ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd.

Clwb 250 Pwyllgor Pentref Cwmann

1af £20 – Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder; 2ail £15 – Ann Davies, Brynteifi; 3ydd £10 – Glyn Evans, Tafarn Cwmann; 4ydd £10 – Gethin Jones, Croesor; 5ed £10 – Edwin Harries, 8 Nant y Glyn; 6ed £10 Joana Morgan, Llys Penparc; 7fed £10 Eiddig Jones, Gellidewi Uchaf; 8fed £5 – John Lloyd, Pyllaucrynon; 9fed £5 – Aneurin Davies, Tŷ Capel, Parcyrhos; 10fed £5 – Seren Ling, 35 Heol Hathren.

Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar gae'r pentref ar ddydd Sadwrn 10fed Medi. Defaid a nwyddau i mewn rhwng 10 ac 11.30 y bore. Mwy o fanylion oddi wrth yr ysgrifenyddion Danny Davies 423692 neu Eiddig Jones 422655. Dewch i fwynhau'r diwrnod. Bydd atyniadau diddorol yno fel hen beiriannau, adar ysglafaethus, gwneud coleri a cherfio ffyn, gwaith lledr, bwyd a bar. Croeso cynnes i bawb.

Arholiad Telyn

Llongyfarchiadau i Mari Lewis, Tycerrig ar lwyddo i gael merid yn ei harholiad telyn gradd 2 yn ddiweddar. Hyfforddwyd hi gan Georgina Cornok-Evans, Harford.

Côr Corisma

Bu'n gyfnod digon prysur i Gôr Corisma yn ddiweddar. Wedi ymarfer yn wythnosol ar gyfer ein cyngerdd yn Nhalgarreg cyn y gwyliau, fel gwobr am y canu da, fe gafwyd Trip Dirgel wedi ei drefnu gan Lena. Fe ddechreuodd y trip o ganol dre, a wedi dilyn cyfarwyddadau mewn ffyrdd penillion mi wnaeth yr aelodau ddarganfod eu hunain yn stiwdio ddawns un o'n haelodau sef Sally Saunders. Cafwyd awr bleserus (!) yn dawnsio o flaen sawl drych

ENFAWR i gerddoriaeth Sbaeneg ac Americanaidd a chwifio rhyw bompoms lliwgar o gwmpas- tipyn o ddwli a chwerthin di-stop ar ben ein gilydd yn symud go chwith a cholli anadl a chochi a baglu. Wedyn draw i dŷ ein Cadeirydd yn Llysbarcud, Cellan i gael Pims ar y lawnt ac ychydig o gyngor wrth Emma Panacea ar sut i edrych yn bert drwy ddefnyddio colur effeithiol. Diolch i Carys ein harweinyddes a Rhian ein Swyddog Nawdd am "wirfoddoli" i fod yn fodolau! Ymlaen â ni ar garlam wedyn i Benlanlas yn Llanfarian tu allan i Aberystwyth i gael swper blasus iawn a golygfeydd godidog o gwmpas y cwrs golff, a wedyn galw heibio nôl yng Ngwesty'r Plu Aberaeron i gael clonc a chyfle i ddadansoddi helynt y dydd- diwrnod i'w gofio yn wir!

Gyda llaw, peidiwch meddwl bod rhaid i chi gael llais bendigedig i fod yn y côr ... os oes diddordeb 'da chi i fod yn aelod - a bod ddim ots 'da chi gael ambell i bwt os i chi 'n canu mas o diwn ar foment wan - rhowch alwad ffôn - 493602 am fanylion pellach.

RHAID cofnodi pa mor falch i ni o lwyddiant Sally Saunders ar raglen John Barryman yn ddiweddar! Bu'n freuddwyd gan Sally i berfformio yn y "West End" ers yn ifanc, a diolch i'w chwaer yng nghyfraith Tina am ei henwebu ar gyfer y rhaglen, mi gafodd Sally y cyfle i fod yn aelod o gast Billy Elliott yn ddiweddar. Mae'n amlwg i bawb fod y dalent ganddi i berfformio ar y raddfa broffesiynol yma ond fe ddewisiodd Sally briodi a magu teulu yma yng nghefn gwlad gorllwein Cymru a gwireddu breuddwyd arall o agor stiwdio ddawns - yn sicr yr 'rydym ni yn y gymuned wedi elwa o'i phenderfyniad i wneud hynny.

Llongyfarchiadau mawr iddi a phob lwc da'r canu a'r dawnsio!

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad a Brenda ac Evan Morgan, Gellideg ar farwolaeth ei brawd yn Llansawel.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Ann Ewart, Heol Hathren ar ddod yn famgu a gor-wyres fach i Jeff a Gwennie Douche, Glynceri. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Alun ac Elsie Jones, Glanrhyd ar ddathlu pen-blwydd priodas arian yn ddiweddar. Pob dymuniad da.

Ysbyty

Braf deall fod Elan, Araul yn parhau i wella ar ôl cyfnod o salwch. Yr un dymuniad da i Sian, Awel y Grug ar ôl ei llaw-driniaeth yn

CRhA Carreg Hirfaen yn cefnogi Apêl Elain



Carys Davies, Cadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan yn cyflwyno siec o £1,000 tuag at Apêl Elain. Dyma gyfran o'r arian a godwyd mewn Dawns Haf yn ddiweddar yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn derbyn y siec ar ran yr apêl mae Gareth James, tad Elain yn magu Elain a June James, Mam-gu. Erbyn hyn mae Apêl Elain wedi llwyddo i godi dros £30,000 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru, Apêl Wallace a Gromit Ysbyty Plant Bryste, Tŷ Ronald McDonald, Bryste ac Uned Calon Plant i Gymru. Yn y llun hefyd mae Aled Evans, Prifathro; Ann Herbert, Ysgrifenyddes CRhA, Carys Lewis, Is Gadeirydd; Elin Jones, Athrawes a rhai o ddisgyblion Carreg Hirfaen: Llion, Cari, Llŷr, Lowri a Sara. Hoffai'r Gymdeithas ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

ysbyty Glangwili ac i Sally Davies, Four Winds, Heol Cellan, ac Eifion ei phriod ar ôl cael damwain ddifrifol.

Dymuniadau gorau i Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen a fu'n anhwylyd ac yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwellhad buan i chi gyd.

Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan, Llys Penparc, ar ei lwyddiant gyda'r defaid Balwen. Cafodd wobwr gyntaf am y ddafad orau a'r oen fenyw ac ennill y Bencampwriaeth am y ddafad a'r oen. Enillodd hefyd yn Sioe Cwrtycadno. Gwych iawn.

Arholiadau

Estynnwn ein cyfarchion i nifer o blant yr ardal ar eu lwyddiant gyda'r arholiadau Lefel A a TGAU a phob dymuniad da i chi mewn gwahanol feysydd.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Naiomi Davies, Hafod Lon, Cwmann am basio arholiad piano Gradd 1 gydag anrhydedd.

Diolch

Dymuna Doreen Harries, Heol Hathren ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar adeg ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago – Gorffennaf

1. Mr. Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 23, 2. Mrs. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 57, 3. Mr. Julian Evans, Brynlllys,

Bryn Rd., Llanbed, 113, 4. Mrs. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68, 5. Mrs. Ruthie Williams, Rhiwlas, Cwmann, 19, 6. Mr. Danny Davies, Brynteifi, Cwmann, 72, 7. Mr. Aled Evans, Hafod-y-Gan, Llanbed, 8. Mrs. Margaret Morgan, Blaen-y-Maes, Pencarreg, 133, 9. Mr. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 3, 10. Mrs. Rhian Evans, Llŷs-y-coed, Cwmann, 49.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago – Awst

1. H. E. Williams, Brynmeusydd, Parc y Rhos, 118, 2. Marian Thomas, Brondeifi, Cwmann, 66, 3. Mr. Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 23, 4. Mrs. Marian Roberts, Cyswel, Cwmann, 53, 5. Mr. Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni, 82, 6. Mrs. Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34, 7. Mrs. Helen Davies, Lan yr Esgair, Cwmann, 38, 8. Mrs. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92, 9. Mrs. Ann Davies, Brynteifi, Cwmann, 56, 10. Mrs. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81.

Clwb 250 Mis Gorffennaf

1. 168, Dean Evans, 5 Heol Hathren, Cwmann, 2. 32, Lisa Mildon, d/o Gannets, Aberystwyth, 3. 212, Eirios Jones, Felindre Uchaf, Cwmann, 4. 204, Glyndwr Jones, Y Glyn, Cwmann, 5. 192, Evelyn Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann, 6. 98, Emyr Hargreaves, 17 Heol Hathren, Cwmann, 7. 154, Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 8. 145, David Williams, d/o Tŷ Howell, Cwmann, 9. 3, Gwen Jones, Felindre Uchaf, Cwmann, 10. 211, Dana Jones, 45 Heol Hathren, Cwmann.

Gorsgoch

Sioe Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifainc Llanwenog

Cynhaliwyd 31ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch a Cheffylau Gorsgoch ac Arddangosfa Hen Beiriannau ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, Awst 20fed. Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu.

Roedd y gwaith o feirniadu adrannau'r gwartheg biff a godro yn cymryd lle yn y pythefnos cyn y sioe, a phleser yw cofnodi ei fod wedi bod yn lwyddiant unwaith eto. O ganlyniad i'r tywydd gwlyb ni fu'n bosib i gynnal y mabolgampau i'r plant yn ystod y prynhawn ond cafwyd tywydd hindda i bedwar tîm fedru cystadlu yn y rownderi yn yr hwyr a mwynheuyd yr adloniant nos gan 'The Stifbacks' a 'Newshan'. Fe fydd cyfran o elw'r sioe yn cael ei roi i Diabetes UK Cymru. Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd y gwobrau i'r canlynol gan y Llywyddion, Mr a Mrs Gwilym Jenkins, Glynmeherin:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Dai Evans, Aberaeron. **Is-bencampwr** – Nicola Davies, Crud yr Awel; **Marchogaeth** – Pencampwr – Elen Evans, Talgarreg. **Is-bencampwr** – Lisa Brammeld, Llanwnnen; **Hynodion y Ceffylau** – Charlotte Clark; **Pencampwr yr adran geffylau**, ac yn derbyn cwpan Hang-on yn rhoddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynnon Rhys – Elen Evans, Talgarreg.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Gareth Evans, Parcyrrhos. **Is-bencampwr** – May Clegg, Drefach Felindre. **Gwobr Cymdeithas**

Defaid Llanwenog – May Clegg, Drefach Felindre. **Defaid Speckled** – Pencampwr – Anwen Jones, Blaenblodau. **Is-bencampwr** – Anwen Jones, Blaenblodau. **Defaid Continental** – Pencampwr – Geraint Lloyd, Esgairinglis. **Is-bencampwr** – Huw a Bronwen Evans, Glantren Fach. **Unrhyw frîd "Lowland" arall** – Pencampwr – Osian Davies, Fronheulog. **Is-bencampwr** – Osian Davies, Fronheulog. **Unrhyw frîd mynyddig arall** – Pencampwr – Ronald Jones, Meinigwynion Mawr. **Is-bencampwr** – Gareth Evans, Parcyrrhos. **Oen i'r cigydd** – Pencampwr – Owain Jones, Blaenhirbant. **Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid** – Osian Davies, Fronheulog. **Young handler** – Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Cennydd Jones, Rhydowen (C.Ff.I Pontsian).

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Hughes, Cwmhendryd. **Is-bencampwr** – Thomas, Dolcoed, Llanwnnen. **GWARTHEG GODRO: Pencampwr ac Is-bencampwr** – Williams, Glyncoch.

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn; **Coginio** – Glenys Rees, Cwmhiraeth, Felindre; **Gwinoedd** – Megan Richards, Aberaeron; **Cyffraith** – Pamala Davies, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Pamala Davies, Cwrtnewydd; **Blodau** – Andrew Davies, Llandysul; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Meinir Davies, Penffordd; **26 oed neu iau** – Elin Haf Jones, Maesycrugiau; **Adran Plant Ysgol Gynradd** – Heledd Jenkins, Llanwnnen; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio**, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog – Ysgol Cwrtnewydd; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Emyr Jones, Drefach; **Pencampwr y babell**, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller – Aeron Davies, Cribyn.

Ar dramp yn Slofenia....

Dau o drigolion Blwyf Llanwenog yn Slofenia!!

Dydd Iau y 4ydd o Awst - O'r diwedd, dyma'r diwrnod mawr yn cyrraedd! Dyma fi (Enfys Hatcher) ac Arwel Jenkins yn codi pac, ac yn ei bwrw hi am Lundain i ddal yr awyren i Slofenia! Roedd y ddau ohonom yn aelodau o dîm Rali Ewropeaidd Cymru, ynghyd â thri arall o Gymru - Emyr Lloyd (Tregaron), Bethan Griffiths (Sir Gâr) a'n hadweinyddes, Kate Miles (Gwent). Gadawodd y tacsî (Geraint Hatcher!) Gorsgoch am 5 o'r cloch y bore, a chredwch fi neu beidio, fe ffitiodd 6 person, 5 cêś a 5 bag llaw mewn i'r cerbyd bach! Cawsom noson hamddenol yn Ljubljana, prifddinas Slofenia heno, a chyfle i weld golygfeydd hyfryd y ddinas hanesyddol.

Dydd Gwener, y 5ed o Awst - Heddiw, dyma ni'n ymweld â lleoliadau diddorol y ddinas, gan gynnwys y farchnad anferth, y castell hynafol a'r pontydd amrywiol. Treuliasom y prynhawn yn mwynhau yn yr haul crasboeth yn cymdeithasu, gwylio pêlfasged, a joio ambell lasied o win Slofeniaidd!

Dydd Sadwrn, y 6ed o Awst - Diwrnod cyntaf y Rali! Rhaid oedd codi, a dal trêni i ogledd y wlad. Wedi cyrraedd Ruše, ger Maribor aethom ati i greu poster yn hybu Cymru. Roedd y posteri'n cael eu harddangos yn y Rali trwy'r wythnos er mwyn i bawb cael dysgu a darllen am y gwahanol weledydd. Aeth gweddill y diwrnod yn cofrestri, chwarae gêmâu cyflwyno a disgo rhyngwladol yn yr awyr agored i orffen y diwrnod!

Dydd Sul, y 7fed o Awst - Diwrnod y Seremoni Agoriadol oedd hi heddiw.



Rhaid oedd gwisgo yn ein gwisgoedd traddodiadol, mewn gwres aruthrol!! Roedd hi tua 30°C, a ninnau mewn gwisgoedd brethyn,

trwm! Chwysad, i ddweud y lleiaf! Er y gwres, roedd hi'n ffrainc cael cynrychioli Cymru, ac mae'n rhaid dweud, bod ein gwisg ni yn un o'r gwisgoedd mwyaf syfrdanol o holl wisgoedd Ewrop!

Wedi'r Seremoni, aethom ati i baratoi ar gyfer y Bwffe Ewropeaidd, a dyma

un o uchafbwyntiau'r trip weden i! Cyfle i hybu ac arddangos cynnyrch ein gwlad, a blasu bwydydd a diodydd gwledydd eraill! Profiad arbennig ac unigryw iawn! Dyma ni isod wrth ein stondin yn barod i farchnata ei'n cynnyrch!

Dydd Llun a Mawrth yr 8fed / 9fed o Awst - Dau ddiwrnod o weithdai a gwersi am bwysigrwydd gwneud cysylltiadau rhyngwladol a'r ffyrdd mae'r cysylltiadau yma'n gallu cyfoethogi ein bywydau. Cafwyd digon o gyfleoedd i drafod, actio, lleisio barn a chyflwyno dadleuon yn ystod y ddau ddiwrnod. Cawsom y cyfle i weld a chymryd rhan mewn gweithdy o ddawnsio Slofeniaidd hefyd, ac mae'n rhaid dweud, bod Arwel yn dipyn o giamster erbyn diwedd y noson!

Dydd Mercher a Iau, y 10fed / 11eg Awst - Heddiw ffarweliais a fy nhîm a Ruše, a mynd i sefyll at deulu Slofeniaidd yng nghanolbarth y wlad. Es i ynghyd â merch o'r Almaen a bachgen o Wlad Pwyl i aros mewn fferm fechan a oedd yn cadw 20 o dda, 20 gafr, ieir, hwyaid, gwenyn ac yn tyfu pob mathau o lysiau a ffrwythau. Roedd hon yn cael ei gweld fel fferm fawr yn yr ardal yma, ac roeddent yn gwneud caws, gwin, sudd afalau, mêl a phob mathau o bethau eraill ar y fferm ac yn eu gwerthu yn y farchnad leol. Roedd y cartrefi i gyd yn llawer mwy hunangynhaliol na ni yng Nghymru fach, ac roedd bron popeth a gefais ar y fferm yn nwyddau cartref! Tra gyda'r teulu, cefais gyfle i ymweld â gwinllannoedd a selerau gwin ac ambell gyfle i flasgu'r gwinoedd cartref. Bues i'n nofio mewn afon hardd, lân, lle cefais y cyfle i nofio i Groatia!

Dydd Gwener, 12fed o Awst - Diwrnod olaf y rali, ac amser i gymryd rhan mewn gweithdai a gêmâu gwerthuso ac adlewyrchu ar yr wythnos. Roedd yn ddiwrnod trist, a phawb yn brysur yn casglu e-byst a rhifau ffôn cyfeillion newydd. Yn wir, mae fy ffrindiau ar Facebook erbyn hyn yn dod o bob cwr o Ewrop! Cinio ffarwelio oedd y digwyddiad olaf ar galendr y rali, lle roedd disgwyl i bob tîm i wisgo mewn ffurfwisg. Dyma lun o dîm Cymru yn ein gwisgoedd piws. Piws yw lliw logo newydd C.Ff.I Cymru, ac felly fe ddewisom ni y lliw piws yma er mwyn hyrwyddo'r logo newydd. Yn y llun hefyd mae Gwennan Davies o Lanwenog, a gafodd ei derbyn fel rhan o'r tîm trefnu y rali ar gyfer y tair blynedd nesaf – tipyn o anrhydedd! Roedd hi'n braf i fi ar Arwel cael bod yno ar y noson i gefnogi a bloeddio Gwennan wrth iddi dderbyn y ffrainc.

Yn wir, anaml iawn mae dau o'r un clwb yn cael y ffrainc o fod ar dîm y Rali Ewropeaidd gyda'i gilydd, heb sôn am un ar y tîm trefnu hefyd! Mae'r



Rali eleni wedi bod yn un i'w chofio i fi, Arwel a Gwennan, a hefyd yn ffrainc prin iawn i G.Ff. I Llanwenog hefyd. Rydym wedi bod yn ffodus iawn, ac roedd cynrychioli Cymru, Ceredigion a Chlwb Llanwenog yn Rali Ewropeaidd Slofenia yn ffrainc ac yn anrhydedd bythgofiadwy!

Gan: Enfys Hatcher

Llanybydder

Priodas Arian

Llongyfrachiadau i Gwyneth a Tim Davies, Llys Enwyn ar ddathlu ei Priodas Arian yn ystod diwedd mis Gorffennaf.

100 oed

Ar ddiwedd mis Awst dathlodd Mrs Ada Williams, ei phenblwydd yn 100 oed! Gobeithio i chi fwynhau'r parti! Iechyd da i chi am sawl blwyddyn arall.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sharon a Gareth Williams, 5 Heol y Gaer, Llanybydder ar enedigaeth eu merch fach Lois Fflur, chwaer fach annwyl Gemma a Dafydd a wyres i Dave a Euronwy a Keith a Marlene a gorwyres Davy, Murmur y Coed.

Diolch

Dymuna Sharon a Gareth Williams, 5 Heol y Gaer ddiolch o galon am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach Lois Fflur.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Gwendoline Jones, Prospect House ar ddod yn fam-gu am y tro cyntaf, mab bach Dafydd Rhys i Carys a Chris.

70 oed

Ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf

dathlodd Jack Jenkins, Gelli House ei ben-blwydd yn 70 oed. Iechyd da i chi am flynyddoedd eto.

Priodas Dda

Ar Orffennaf 30ain priododd Gary Davies, Cadwyn Aur â Buddug Lloyd, Adsolwen, Nebo. Hir oes i chwi eich dau yn eich bywyd priodasol ac hefyd yn eich cartref yn Nebo.

Ŵŷr Newydd

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Bellamy, Hendy ar enedigaeth ŵŷr bach newydd, mab bach Osian Ifan i Rhian a James yn Llanllwni.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Marlene, Andrew a Gareth a'r teulu, Pantllyn yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thadcu annwyl sef Keith Williams a fu farw'n sydyn yn ystod y mis.

Arholiad

Llongyfarchiadau i Alpha Jones, Y Gelli ar basio arholiad ysgrifenedig Coleg Cerdd Brenhinol – Gradd 2 ysgrifenedig gyda Anrhydedd ac hefyd Gradd 4 ymarferol gyda theilyngdod.

Diolch

Dymuna Aerwyn, 2 Heol-y-Gaer ddiolch am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed.



Enillydd y brif wobwr yn Sioe Cymdeithas Ceffylau Gwedd Gorllewin Cymru a gynhaliwyd yn Llanybydder sef “Cadwg Gipsy” gyda'i pherchennog Kerry Tanner o Gastell Nedd a Llywydd y dydd Barry Mathews o Aberystwyth.



Llywyddion y dydd Dr Stephen Rowlands a Mrs Deborah Rowlands a Pamela Burke Cadeirydd y pwyllgor gyda enillwyr y gwahanol adranau yn Sioe Garddwriaethol Llanybydder. O'r chwith Pamela Burke Maralyn Lambert, Stephen a Deborah Rowlands, Nia Davies, Bethan McMullan, Gwyn Williams, Victoria Davies a Harry Thomas (marciau uchaf yn adran y plant) gyda'i fam Jude Thomas.



Bethan McMullan yn cyflwyno tlws sef gwobr “Elwyn Davies Fronlas” i Gwyn Williams o Llanybydder am y nifer fwyaf o farciau yn y sioe.



Rebecca McEnery a Zoe Burke-Coles yn cyflwyno rhoddion i Stephen a Deborah Rowlands, llywyddion y sioe.

Eisteddfod Papurau Bro

Bwriada Clonc gystadlu yn Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion eleni eto, ond gofynnir i ddarlennwyr Clonc i ymuno yn yr hwyl drwy ymuno yn yr hwyl ar y noson.

Dyma'r Manylion: Dyddiad: 9fed o Fedi 2011, Lleoliad: Neuadd Felinfach, Amser: Drysau yn agor am 7.00yh, Noson i ddechrau am 7.30yh. Arweinydd: Geraint Lloyd, Beirniad: Dewi 'Pws' Morris.

Dyma'r cystadlaethau Llwyfan. Meddyliwch amdanynt a dewch draw i gystadlu yn enw Clonc:

1. Datganiad ar yr organ geg, i bara dim mwy na tair munud. Hunan ddewisiad
2. Sgetsh gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grwp, i bara dim mwy na pum munud. Testun - unrhyw arddull yn ymwneud a phapur bro
3. Llefaru - darllen darn heb ei atalnodi
4. Stori gelwydd

Roedd y deunydd gwaith cartref i'w hanfon erbyn 26 Awst. Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd. Cyflwynir gwobr i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu.

Mae'r Lolfa yn cyflwyno tlws ar gyfer y papur bro a ddaw i'r brig ar ddiwedd y barnu a'r cystadlu.

Dylai fod yn llawer o hwyl, felly nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur ac ewch ati i baratoi. Gwerthfawrogi eich ymdrechion yn fawr iawn er mwyn chwifio baner Clonc ar y noson.



MEDI

- 2 Sioe Ffasiynnau C.Ff.I. Ceredigion ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant, Llambled.
- 3 Sioe Llandysul.
- 9 Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach. Beirniad: Dewi Pws; Cyflwynydd: Geraint Lloyd. Beth am fod yn rhan o dîm Clonc?
- 10 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
- 10 Bore Coffi a Stondinau amrywiol yn Neuadd Eglwys San Pedr, Llambled o 10y.b. - 12y.p.
- 10 Eisteddfod Gadeiriol Tregaron.
- 11 Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 13 Cyfarfod Pwyllgor Diabetic Llanybydder yn Festri Aberduar am 7:30y.h. Siaradwraig wadd y chwaer Janet Thomas o Glangwili a'r pwnc Insulin i Oedolion.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch Maesffynnon am 2.00y.p ac fe bregethir gan Miss Beti Griffiths, Llanilar.
- 22 Cwrdd Diolchgarwch Lliadiad Nennog am 7:00y.h. Pregethir gan y Parch Jill Tomos, Aberduar. Croeso cynnes i bawb.
- 23 200 mlwyddiant Capel-yr-Erw, Cellan yn dathlu dau ganmlwyddiant seydlu'r achos eleni. Cynhleir Cinio Dathlu yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbed ar nos Wener y 23ain o Fedi. Y gŵr gwadd fydd Y Prifardd T. James Jones. Mae croeso arbennig i bawb i ymuno yn y dathlu. Gellir archebu tocyn wrth yr ysgrifenyddes Eirios Jones, Felindre, 01570 422 255 a'r dyddiad cau yw'r 17eg o Fedi.
- 24 Eiteddfod Gadeiriol Felinfach yn y Neuadd Goffa.
- 24 Noson yng Nghlwb Rygbi Llanybydder yng nghwmni Clive Edwards ac eraill am 8:00y.h. Elw tuag at Ymchwil Cancr.
- 25 Cwrdd Dathlu 50 mlynedd Gweinidogaeth y Parch. Hugh Mathews yn Noddfa am 2.00y.p.
- 26 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.
- 28 Oedfa Diolchgarwch Ebenezer, Llangybi a'r pregethwr gwadd fydd y Parch Richard Lewis ac fe fydd yr oedfa am 6:30y.h.

HYDREF

- 1 Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd ag Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a pharti bechgyn Dyffryn Cothi yn Neuadd Brofana Ffarmers am 7.30 yr hwyr. Elw tuag at Ambiwylans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
- 2 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi am 7y.h. Y genadd fydd y Parch Bill Fillery, Llambled.
- 3 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7:00y.h.
- 3 Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Silian am 7.00 y.h.
- 7 Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Betws.
- 7 Noson Moes a Phryn dan nawdd Urdd y Benywod Capel y Bryn yn Festri Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 12 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrhos am 7 o'r gloch gyda'r Parch Felix Aubel.
- 12-14 Sioe Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yn Theatr Felinfach.
- 14 Cynhelir Eisteddfod y Cymoedd yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach am 5.00y.h. Y beirniaid yw Euros Rhys Evans a Patric Stephens (Cerdd), Pat Griffiths (Llefaru), T.James Jones a Nia Richards (Llenyddiaeth), Nia Williams (Dawns) a Wyn Mason (Crefft a Ffotograffiaeth). Y cyfeilydd fydd Lowri Evans. Cysylltwch â Sian Griffiths ar 02920 889295 neu ar Sianpg@btinternet.com neu Linda White ar 02920 882107 neu lindacharnellwhite@gmail.com
- 20 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 29 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Agored i ddechrau am 2.30y.p. Manylion pellach Mair Williams 01558 650292.

TACHWEDD

- 4 Noson Tân Gwyllt yn Rhydiau, Drefach am 7.00y.h.
- 10 + 12 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 12 Gŵyl Cerdd Dant Cwm Gwendraeth.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghlwyd.
- 23 Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth.
- 26 Arwerthiant Blynnyddol Capel Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p.

RHAGFYR

- 4 Cymanfa Ganu Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron.

Llanfair Clydogau

Oed yr Addewid

Llongyfarchiadau i Tim Evans, Efail Fach ac Elaine Coombes, Penlanmedd ar gyrraedd yr oedran arbennig hyn. Fel rhan o ddathliad Elaine, penderfynodd Sefydliad y Merched wneud parti cyfrinachol iddi ar ôl ei cwrdd misol ym mis Gorffennaf. Pan gyrhaeddodd hi y neuadd cafodd syndod mawr i weld llu o'i ffrindiau a'i chymdogion yno i'w chyfarfod gyda gwledd o fwyd wedi ei baratoi.

Cyn dechrau ar y lluniaeth aeth pawb am daith gerdded i lan i'r Gelli a nôl trwy gaeau Pentre i'r neuadd. Roedd Elaine wedi mwynhau y dathlu gymaint, mi benderfynodd gael brynhawn agored ym Mhenlamedd lle cafodd pawb luniaeth a chroeso arbennig. Dwy noswaith fendigedig.

Penblwydd

Hoffem ddymuno llongyfarchiadau cynnes i David, Tŷ Capel, sydd wedi dathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Pob lwc iddo i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Pleser i'w clywed fod Ken Jones, Llwyn, yn gwella yn dda ar ôl cael

llawdriniaeth ar ei benglin yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w weld allan ac wrth ei waith eto yn fuan. Pob dymuniad da iddo a llwyr wellhad.

Ymddeoliad

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Linda Cadman, Yr Hen Ysgol, ar ei hymddeoliad o'i swydd yng Ngoleg Llanbed. Dymunwn iddi ymddeoliad hir ac hapus.

Ffêt a Ras Hwyaidd

Cynhaliwyd ein ffêt flynyddol ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 30ain ar ddiwrnod digon dymunol gyda chefnogaeth dda o bobl a phlant lleol.

Cynigwyd amrywiaeth o gêmiau a chystadlaethau i gadw pawb yn hapus. Cyn diwedd y prynhawn cynhaliwyd y ras hwyaidd sydd bob amser yn creu tipyn o gyffro a sbri. Yr enillwyr eleni oedd :

Helen John, Caerdydd (£30)
Rob Lewis, Penlan (£20) Rhidian Quan (£10) a Iris Quan, (5)

Pan ddaeth terfyn ar hwyl y ffêt a phawb wedi clemio, roedd y barbiaciwr yn barad gyda'r bwyd yn fendigedig fel arfer. I gloi y noson cafwyd dawnio brwd i fwisg y 70au. Aeth y cymdeithasu ymlaen yn hwyr gyda'r miwsig o dan ofal Al Heron.

Diolch i Linda Quelch a'i phwyllgor am drefnu y ffêt, i Al Heron am drefnu'r barbiaciwr ac i'r rhai a fu yn coginio y bwyd ac i unrhyw un arall a drefnodd neu gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd.

Sioe Llambled

Llongyfarchiadau cynnes i Rebecca Millar, Cysgod y Coed, am ennill cwpan o dan adran ysgol uwchradd ac i Sara Davies, Nantymedd, am ennill cwpan adran ysgol meithrin. Da iawn i chwi eich dwy. Hefyd llongyfarchiadau i Iris Quan, Blaewncwm, am ennill cwpan adran y gwaith llaw.

Priodas

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Anna a Mick, Office Fawr, ar eu priodas yn Eglwys Llanfair ar ddechrau mis Awst. Pob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

Clwb Cant

Dyma enillwyr mis Gorffennaf: £20 Rebecca Millar, Cysgod y Coed. £10 Glyndwr Jones, Cwmann, Wil Hockenhull, Tregaron, Martin Quan, Sŵn yr Afon. £5 Isobel Taylor, Sally Leech, Mathew Millar, Meg y Ci, Linda Cadman a Chris Burgess.

A ydych wedi cofrestru eto?
Have you registered yet?

Cyngor Sir Ceredigion County Council,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA

Os nad ydych chi ar y Gofrestr Etholiadol efallai na fyddwch yn medru cael credyd, na bwrw'ch pleidlais mewn etholiad.



If you're not on the Electoral Register you may be refused credit and won't be able to vote.

Bydd y ffurflenni cofrestru yn dod drwy'r post yn fuan
Look out for registration forms in the post shortly

COFRESTRWCH A PHLEIDLEISIWCH / REGISTER & VOTE

☎ 01545 572033 / 01545 572277



Tri o redwyr y clwb yn teithio i Lanberis i'r ras yr Wyddfa, Carwyn Thomas yn gorffen mewn awr 43 munud 24 eiliadau, Kevin Hughes awr 43 munud 24 eiliad, a Caryl Davies yn rhedeg y ras am y bumed waith ac yn gorffen yn ei amser gorau awr 56 munud 56 eiliad.

Tair ras mewn chwech wythnos yw cyfres Poppit Sands - cyfres gyntaf 2il Carwyn Thomas, 5 Teifion Davies, 11 Eric Rees, 20 Calvin Williams, 35 Gareth Jones, 41 Helen Willoughby, 50 Caryl Davies, 80 Aneurin James, 95 Allen Watts. Thomas Willoughby yn gorffen yn 3ydd yn ras y plant, 5 Daniel Lewis, 7 Sam Barmmela, 8 Dafydd Lewis, 11 Daniel Willoughby. Yr ail gyfres 6 Richard Marks, 24 Gareth Jones, 29 Helen Willoughby, 44 Caryl Davies, 70 Aneurin James. Ras y plant 2il Thomas Willoughby, 4 Daniel Lewis, 6 Sam Brommell, 8 Dafydd Lewis, 9 Daniel Willoughby. Y drydedd gyfres 4ydd Glyn Price, 8 Teifion Davies, 9 Gethin Jones, 12 Eric Rees, 16 Huw Price, 24 Simon Hall, 32 Ceirion Jenkins, 35 Gareth Jones 40 Helen Willoughby, 41 Steffan Jones, 57 Caryl Davies, 75 Sian Roberts-Jones, 76 Aneurin James, 94 Dee Jolly, 109 Allen Watts. Ras y plant 6ed Daniel Lewis, 8 Sam Brommell, 9 Thomas Willoughby, 13 Dafydd Lewis, 15 Daniel Willoughby. Enillwyd y gyfres menywod 45 gan Helen Willoughby ac 3ydd yn ras y plant oedd Daniel Lewis.

Ras fynydd wyth filltir Crychan - Carwyn Thomas yn ennill mewn 60 munud 29 eiliadau, Eric Rees 65 munud 56 eiliadau, Calvin Williams 69 munud 58 eiliadau, Gareth Jones 79 munud 54 eiliadau. Caryl Davies enillodd ras agored menywod mewn 81 munud 45 eiliad, a Lyn Rees yn rhedeg y ras pedair milltir mewn 48 munud 17 eiliadau ac yn gyntaf vet 60.

10K Rhydaman 9fed Lloyd Llewelyn 39 munud 27 eiliadau, 10fed a 3ydd d40 Glyn Price 29 munud 28 eiliadau, 16 Huw Price 40 munud 52 eiliadau, 27 Mark Dunscombe 43 munud 10 eiliad, 34 a 1af m55 Dawn Kenwright 45 munud 20 eiliad, 39 Steffan Jones 46 munud 29 eiliadau, a 83 Allen Watts awr 29 munud 39 eiliadau.

Tair ras mewn tri diwrnod oedd ar y penwythnos yma - nos Wener roedd ras Myddfai ac yn gyntaf yn ras y plant dan 14 oedd Caitlin Page 15 munud 06 eiliad, a Grace Page yn ennill y ras dan 11 mewn 18 munud 36 eiliadau. Caryl Davies yn gorffen yn 5ed ac yn gyntaf menywod yn y ras bump milltir mewn 42 munud 31 eiliadau, 7 Lyn Rees 44 munud 16 eiliadau, 12 Sian Roberts-Jones 45 munud 29 eiliadau. Ras wyth milltir cyntaf Daniel Hooper 51 munud 21 eiliadau, 2 Gethin Jones 53 munud 29 eiliadau, 3 Glyn Price 53 munud 48 eiliadau, 4 Eric Rees 57 munud 06 eiliadau, 7 Teifion Davies 58 munud 55 eiliadau, 13 Gareth Jones awr 1 munud 14 eiliadau. Nos Sadwrn oedd ras y Maer yn Aberteifi 3ydd Michael Davies, 4 Gethin Jones, 11 Eric Rees, 14 Simon Hall, 34 Gareth Jones. Dydd Sul oedd ras 5K yn Llanbed 1af Glyn Price, 2il Michael Davies, 3ydd Gethin Jones, 4ydd Teifion Davies, 6ed Huw Price, 7fed Eric Rees, 9fed Helen Willoughby 10fed Caryl Davies, 12fed Sian Roberts-Jones, 14ydd Aneurin James, a Daniel Lewis yn gyntaf yn ras y plant, 2il Dafydd Lewis, 3ydd Owain Lewis.

10K Abergwaun 2il Daniel Hooper 36 munud 36 eiliad, 3ydd Michael Davies 37 munud 04 eiliad, 5ed Gethin Jones 37 munud 24 eiliad, 10fed Eric Rees 39 munud 25 eiliad, 16 Simon Hall 41 munud 33 eiliad, 32 Dawn Kenwright 46 munud 02 eiliad, 33 Gareth Jones 46 munud 23 eiliad, 49 Dee Jolly 57 munud 41 eiliad, 58 Allen Watts awr 25 munud a 36 eiliad.

Ras 800medr ar drac yng Nghaerdydd Ffion Quan yn gorffen yn 5ed mewn 2 funud 29 eiliad ac yn rhedeg ei amser gorau, a Caitlin Page 2 funud 34 eiliad.

Yn y 'really wild race' yn Nhyddewi Aneurin James yn gorffen yn 7fed a Caryl Davies yn gorffen ras fynydd Llanthony mewn 46 munud 56 eiliad. Dydd Sadwrn roedd ras y traen yn Nhywyn, Caryl Davies yn gorffen mewn 2 awr 07 munud a Gudrun Jones 3 awr 14 munud.

Cloncerwyr - Clywch

Y FFENEST

Croeso i'r gornel gîtar. Yma, bydd modd i chi ddilyn y camau o ganu'r gîtar byddwn yn defnyddio yn ein cwrs lleol sy'n cael ei gynnal yn Yr Hedyn Mwstard, bob prynhawn Gwener o 4 tan 5 o'r gloch.

FFEITHIAU SYLFAENOL

Gan edrych ar dannau'r gîtar, o'r chwith i'r dde (o'r un tew i'r un teneuaf), dysgwch eu henwau:

E, A, D, G, B, E.

Gan edrych ar eich llaw chwith, â'r cleidr yn eich gwynebu, dysgwch rifau'r pedwar bys ar gyfer ffurfio cordiau: 1, 2 (bys canol), 3, 4 (bys bach).

Gelwir y sribed metel tenau sy'n mynd yn groes i wddf y gîtar yn FFRET. Mae nifer o ffretiau yn mynd yr holl ffordd lawr y gwddf.

Er mwyn creu sain cywir, gwasgwch y tannau gyda blaen eich bys yn syth tu ôl i'r ffret. Cadwch ewinedd eich bysedd ar y llaw chwith yn fyr o'r herwydd.

Eisteddych ar flaen y gadair, gyda'r gîtar yn pwyso ar eich coes dde.

I gychwyn, byddwch yn troi'r gîtar atoch er mwyn gweld a ydy'r cord yn iawn, ond ceisiwch mor fuan â phosib, ganu'r gîtar heb wneud.

Y BROBLEM FWYAF

Os na fyddwch yn dal eich llaw chwith yn gywir i ffurfio cord, bydd sŵn aneglur gennych. Er mwyn osgoi hyn, rhowch eich bys bawd yng nghanol cefn gwddf y gîtar. Gwnewch fwa gyda gweddill y llaw, yn estyn drosy tannau, gan wasgu'r cord, HEB I'R BYS CYNTAF GYFFWRDD Â'R TANT TENEUAF. Yn

aml. Mae gwaelod bys rhif 1 yn atal sain clir i ddod o'r chweched tant.



33 CHILE ("Oh Sinner Man")

Em

Tri deg tri ymhell o dan y ddaear

D

Tri deg tri ymhell o dan y ddaear

Em

Tri deg tri ymhell o dan y ddaear

Em D Em

Yn ceibo aur

San Jose a welodd cwmp tan ddaear (3X)
Wrth geibo aur.

Chwe deg naw niwrnod dan y ddaear (3X)
Yng nghwmni aur.

Daeth pob un i fyny mewn gorfolodd (3X)
Wrth adael aur.

Tri deg tri ddaeth lan o waelod daear (3X)
I lyncu aer.

Gerald Morgan, Ionawr 2011.

Dyma'n cân gyntaf. Gobeithio cewch lwyddiant a hwyl gyda hi.

Dewch nôl yma fis nesaf i ddysgu ragor.



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont

LLANBEDR PONT STEFFAN

Ffôn a Ffacs: 01570 423984

Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed

☎ 01570 422517 📠 01570 423244

Cwmsychpant

Sioe Cwmsychpant 2011

Ar ddydd Sadwrn, Awst 13eg cynhaliwyd Sioe Flynyddol Cwmsychpant a’r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni, roedd yr elw yn mynd tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu’r Treialon ymlaen yn gynnar iawn y bore tan hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babell o safon uchel a’r babell yn orlawn. Cynhaliwyd mabolgampau i’r plant ac roedd yr arddangosfa o hen beiriannau yn werth i weld.

Am dri o’r gloch cafwyd araith bwrpasol gan ein llywydd sef Mr. Gwyn Williams, Blaenplwyf House, Llanybydder. Mawr yw ein diolch am ei rodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant Blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni Ffushanti. Daeth cynulleidfâ niferus i wrando a mwynhau eu perfformiadau arbennig.

Rhestr enillwyr y cwpannau:
Treialon Cwn Defaid - Cenedlaethol Agored - Idris Morgan gyda Ned; **Nofis Cenedlaethol** - Jeff Evans gyda Spot; **Agored De Cymru** - Eirwel Evans gyda Jess; **Nofis De Cymru** - Meirion Jones gyda Jess.
Gwinoedd – Megan Richards, Bryn Deri Abereron; **Cyffeithiau** – Lloyd Edwards, Maesceio, Penrhyncoch; **Coginio** - Wendy Davies, Caerwenog, Cwmsychpant; **Gwaith Llaw** – Dilys Godfrey, Cwmann; **Crefft** – Dai Davies, Brynerw, Ciliau Aeron; **Ffyn** – Andrew Jones, Pentresion, Pentrebach; **Ffotograffiaeth** - Wendy Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant; **Arlunio Plant Bl. 2 a thano** - Phoebe Prater, Ysgol Cwrtnewydd; **Bl. 3 a 4** – Chloe Cox, Ysgol Llanwenog; **Bl. 5 a 6** – Gethin Morgans, Ysgol Cwrtnewydd; **Adran Plant 8 a thano** – Carwyn Rosser, Gwel Cwm Teifi, Brynteg; **9 a than 12** – Cerys Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychbant; **12 a than 17** - Meinir Davies, Caerwenog, Cwmsychbant; **Adran Blodau** - Erika Davies, Felinban, Capel y Groes; **Celfyddyd Blodau** – Erika Davies, Felinban, Capel Y Groes; **Cynnyrch Gardd** – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn; **Adran Geffylau Pencampwr yr Adran Geffylau** – Dai Davies, Clogfryn, Aberaeron; **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant**– Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen; **Adran Ddefaid - Pencampwr Croesfridio** – Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn; **Taleb gwerth £25** – Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn

Dymuna holl bwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un llwyddiannus.

Taith Gerdded

Ymunodd rhai aelodau o Gapel y Cwm ar daith gerdded flynyddol yr enwad o Langybi i Gaeronnen. Roedd hi’n brynhawn braf a chafwyd amser pleruser iawn ar y daith hyfryd.

HelFa Drysor

Ar nos Wener, Gorffennaf 15fed cynhaliwyd HelFa Drysor gan Gapel-y-Cwm. Trodd 14 car allan i’r helFa a oedd wedi ei baratoi gan Menna a Meurig, Drefach. Yr enillwyr oedd Einir, Nanna, Mererid a Caroline a rhannwyd yr ail wobr gan Eifion ac Elenid, Talar Wen a Wendy ac Eileen, Tanrhos.

Llongyfrachiadau

Llongyfrachiadau i Carwyn Davies, Caerwenog sydd wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth ‘Dylunio a Newyddbethau’ am y lamp a greoedd fel rhan o’i brosiect TGAU Dylunio a Thechnoleg. Dymuniadau da i ti i’r dyfodol.

Trip Ysgol Sul

Cafwyd y Trip Ysgol Sul blynyddol ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 30ain i Fferm Cantref ger Aberhonddu. Bu’r tywydd yn ffafriol i ni drwy gydol y dydd a phawb wedi mwynhau ymysg ei gilydd. Cafodd y plant gyfle i chwarae, mynd ar y tractor a’r treialar gweld gwahanol anifeiliaid, gweld person yn cneifio ayb. Stopiwyd yn Llanymdyffri i gael sglodion ar y ffordd adref.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Mair a Brian Potter, Rhoslynwyr ar enedigaeth ŵyr bach, mab bach i Osian a’i wraig Tina ym Mynach, Cribyn o’r enw Rhun Siôn.

O geiniog i geiniog y tro’r arian yn bunt

gan Beca Russell, Cynghorwr Ariannol Annibynol gyda Cyfri Cyfyngedig Cynilo

Yn aml bwriad cynilo yw i ariannu nodau byrdymor neu pan fydd angen codi arian yn gyflym (er enghraifft, i dalu am wyliau, penblwyddi, y Nadolig neu argyfwng fel cael eitem newydd i’r cartref). Bydd eich arian yn tyfu gan y bydd llog yn cael ei ychwanegu ato’n fisol neu’n flynyddol.

Gallwch gynilo mewn amrywiaeth eang o gyfrifon cynilo gyda banciau, cymdeithasau adeiladu neu Chynillion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I). Mae gan pob cyfri gyfraddau llog ac amodau a thelerau gwahanol.

Mae cyfrifon cynilo yn seiliedig ar adnau (deposits). Mae hyn yn golygu y cewch yr arian a roddwyd i mewn gennych, yn ogystal a llog, yn ôl. Y prif fathau o gyfrifon yw;

- Cynilion – Mae fel arfer yn talu llog uwch na chyfrifon cyfredol ac mae fynediad yn hawdd.
- ISA arian parod (Cyfrif Cynilo Unigol) – Yr uchafswm y gallwch ei roi mewn yw £5,340 ar gyfer y flwyddyn dreth 2011/12. Bydd hyn yn cynyddu bob blwyddyn dreth yn unol â’r Mynegai Prisiau Manwerthu (Retail Price Index). Yn gyffredinol, mae’n talu llog uwch na chyfrifon cadw arferol ac mae’r llog a enillir yn rhydd o dreth incwm. Mae’r mynediad yn hawdd ond gall rhai gael cyfnodau rhybudd.
- Rhybudd penodol – Rhaid i chi roi rhybudd os ydych am godi eich arian er enghraifft 7, 30, 60 neu 90 diwrnod. Mi fydd cosb, fel arfer ar ffurf llog is, os byddwch yn codi eich arian heb roi digon o rybudd.
- Bond cyfradd sefydlog (cyfrifon tymor) – Fel arfer rhaid i chi adael eich arian i mewn am flywyddyn neu fwy (sef y tymor). Yn aml, mae angen adneuo swm gofynnol, er enghraifft £1,000. Gallai fod yn anodd codi arian yn ystod y tymor neu gallai olygu cosb.
- Cynilion rheolaidd llog uchel – Mae eich cyfrif cyfredol gyda’r un darparwr a’ch cyfrif cynilo. Rydych yn trosglwyddo’r swm bob mis i’r cyfrif hwn yn rheolaidd am gyfnod penodol. Fel arfer telir llog yn flynyddol yn unig, a dim ond yn flynyddol y gallwch godi arian.

Chwyddiant

Mae chwyddiant yn digwydd pan fydd prisiau yn codi drwy’r economi gyfan. Mae’r effaith a gaiff chwyddiant ar eich arain yn golygu y bydd yr arian a gynilir gennych yn prynu llai bob blwyddyn. Er mwyn diogelu eich cynilion yn erbyn hyn, chwiliwch am gyfradd llog sy’n fwy na chyfradd chwyddiant.

Treth

Mae treth yn cael ei dynnu o’r llog cyn ei dalu i chi. Gall pobl nad ydynt yn drethdalwyr drefnu i’r llog gael ei dalu fell log gros (cyn treth) drwy gwblhau ffurflen R85 – sydd ar gael o’ch banc, cymdeithas adeiladu neu Gyllid a Thollau EM. Gallwch drefnu hyn ar gyfer eich plentyn hefyd.

Diolch yn fawr iawn i:
Cyngor Cymuned Llanllwni - £100,
Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau - £100
am eu cefnogaeth ariannol tuag at goffrau cynhyrchu papur Bro CLONC. Gwerthfawrogir hyn y fawr iawn.

Mae CLONC ar werth yn:	
Awen Teifi, Aberteifi	Aeron Booksellers, Aberaeron
Caxton, Llambled	Siop Llangybi
Compton, Llanybydder	Siop y Cennen, Rhydaman
Co-op, Llambled	Spar, Llanybydder
Eryl Jones, Llambled	Spar Llambled
Garej Checkpoint, Harford	Swyddfa Bost, Felinfach
Garej LFS Llandeilo	Swyddfa Bost, Llanllwni
Glennydd, Cwrtnewydd	Swyddfa Bost, Llanwnnen
Siop Gomerian, Llandysul	Swyddfa Bost, Pontsian
Igamogam, Llandeilo	Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Inc, Aberystwyth	t-hwnt, Caerfyrddin
J H Williams, Llambled	W D Lewis a’i Fab Pumsaint
Lomax, Llambled	
Medical Hall, Tregaron	
Siop y Bont, Llanybydder	

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Ar Fehefin yr 28ain o dan lywyddiaeth Esgob Tŷ Ddewi, y Gwir Barchedig, J Wyn Evans, gyda'r Ficer y Parch Suzie Bale, yn ei gynorthwyo, cynhaliwyd Gwasanaeth Bedydd a Chonffyrmasiwn yn yr Eglwys. Hefyd yn bresennol roedd Caplan yr Esgob, Archddiacon Aberteifi, yr Hybarch W. Strange, ynghyd ag Offeiriaid Eglwysy'r ymgeiswyr. Bedyddiwyd a chonffyrmiwyd, Ffion Evans, Rhys Evans a George Greenfield. Conffyrmiwyd hefyd Tomos Evans, Jac Evans a Miss Heddwen Davies ynghyd ag aelodau o Eglwysy Llanllwni, Trefilan a Chwmann. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan yr Esgob, ac i ddiweddu'r noson bleserus, mwynhawyd lluniaeth blasus wedi ei drefnu gan wragedd Santes Gwenog. Diolchwyd iddynt am eu paratoadau trylwyr.

Cafwyd llawer o hwyl yn yr Helfa Drysor gynhaliwyd Nos Wener yr 8fed o Orffennaf. Wedi crafu pen a gwneud aml i gamgymeriad daeth y daith i ben yn y Llew Du yn Llanybydder. Cafwyd pryd blasus tra'n dehongli'r cliwau a thynnu'r raffl. Tasg yr enillwyr fydd trefnu'r Helfa Drysor nesaf!! Cyn hynny bydd noson gwis yn yr Eglwys Fach ar y 9fed o Fedi. Dewch a thîm o bedwar i gystadlu a mwynhau lluniaeth ysgafn a chwmni hawddgar.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn arholiadau Lefel A a TGAU. Dymunwn bob hwyl i'r rhai sy'n gadael yr Ysgol Gynradd am Ysgolion Uwchradd y Sir.

Braf yw gweld Jim Evans, Frowen, adre wedi gorffen ei driniaeth yn Ysbyty Abertawe, dymuniadau gorau iddo ac i bawb o'r cylch sy'n anhwylyd.

Canlyniadau Clwb 100 yn rhifyn nesaf Clonc.

Diolch

Dymuna Mrs Annie Bowen,

Arosfa, Drefach, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau gafodd yn ystod ei chyfnod o anhwylder yn ddiweddar.

Mae'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr.

C.Ff.I. Llanwenog

Bu nifer o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn cystadlu ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Dyma'r canlyniadau:-

Sioe Atal Tân: 1af; Ar y Newyddion: 5ed; CFFI Ffactor: 5ed; Tynnu'r Gelyn: 6ed; Dawnsio: 8fed; Barnu Defaid Suffolk dan 18: 9fed sef Sioned Fflur a Meimio: 5ed.

Ar ôl wythnos o gystadlu daeth Sir Geredigion yn y 4ydd safle.

Braf oedd gweld Heilin Thomas, aelod o glwb Llanwenog yng nghanol cylch y gwartheg yn sicrhau ei le ar Fferm Ffactor 2011. Pob lwc i ti, ac edrychwn ymalen i dy weld ar y teledu yn cystadlu ym mis Medi.

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol a braf oedd gweld nifer fawr o'r aelodau yn bresennol. Enfys Hatcher fydd wrth y llyw fel cadeirydd am 2011 – 2012, a'r llywydd am y flwyddyn fydd y cyn-aelod gweithgar Dai Thomas, Pantffynnon. Pob lwc i'r holl swyddogion yn eu swyddi.

Gan fod cyfarfodydd wythnosol y clwb wedi dod i ben am yr haf, bu aelodau clwb Llanwenog yn brysur yn trefnu, cystadlu a mwynhau ym mwrllwn Sioe Gorsgoch a CFFI Llanwenog. Hefyd ar yr un penwythnos bu ymwelwyr o CFFI Ayresshire yn ymweld â ni. Ar y nos Wener trefnwyd noson o farbeciw a gêmâu dwl yn Nhafarn Cefn-hafod, Gorsgoch a chafwyd noson hwylus iawn wrth i bawb ddod i adnabod ei gilydd. Bu'r Albanwyr yng nghanol bwrlwm y sioe ar y dydd Sadwrn, ac ymunodd y deunaw ohonynt mewn gêm o rownderi. I gwblau'r diwrnod ymunodd yr ymwelwyr â ni i joio a dawnsio i gerddoriaeth Newshan a The Stiffbacks.



Enillydd dosbarth Rhif 403 Hefer a anwyd rhwng Mawrth 2009 – Chwefror 2010 yn y Sioe Frenhinol oedd EINON GWENNO a ddangoswyd gan Ian Lewis, Gwarcoedeinon, Llanwenog

Ar y bore dydd Sul gyda bron pawb yn magu pen tost fe fentrodd nifer ohonom gyda chwmni'r Albanwyr i Ganolfan weithgareddau Llain yn Llanarth am bump awr o adeiladu, glychu, a gweithio fel tîm. Lot fawr o sbort a sbri! Gobeithio fod yr ymwelwyr wedi dychwelyd i'r Alban ac wedi joio mas draw ac yn gwybod sut mae aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn mwynhau bywyd!!

A fydddech chi yn hoffi bod yn rhan o fwrlwn wythnosol Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog? Dewch, ymunwch â ni yn ein cyfarfod cyntaf ar nos Lun, Medi 5ed am 7.30yh yn Ysgol Cwrtnewydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Emyr, Gillian a'r teulu, Meysydd yn eu profedigaeth o golli nai a chefnider annwyl yn Dr Gwion Rhys o Lanarmon trwy ddamwain yn 38 oed.

Penblwydd Hapus

Ar ddiwedd mis Gorffennaf dathlodd Ann Davies, Ger-y-nant ei phenblwydd yn 40 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu!!

Hefyd dathlodd Dan Jones,

Cefnrhuddlan-Uchaf ei benblwydd yn 18 oed.

Hefyd i Huw Davies, Bryndolau ar ddathlu ei benblwydd yntau yn 50 oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carwyn, Gwarcoed Einon ar ei lwyddiant gyda'r Gwartheg Duon Cymreig, yn gyntaf yn y Sioe Frenhinol, ac yn bencampwr yn Sioe Môn a llawer o sioeau eraill. Dal ati.

Y Gymdeithas Hŷn

Mae'r aelodau wedi bod ar ddau drip ers i rifyn diwethaf Clonc ymddangos. I'r Amwythig aethant ym mis Gorffennaf, galw yn Llangurig am goffi yn y bore, a chael swper yn Llanidloes ar y ffordd adre.

Roedd taith mis Awst dipyn yn wahanol. Aros am goffi yn Pontsenni, cyn teithio dros y Bannau i Ddistyllfa Penderyn. Cael gwybodaeth yno sut mae'r whisgi'n cael ei gynhyrchu, a'r broses mae'n rhaid mynd trwyddo cyn ei fod yn barod i'w boteli. Cafwyd cyfle i flasgu ychydig o'r 'moddion', ac i'w brynu yn y siop cyn ymadael.

Teithio wedyn dros y Rhigos i Dreorci, ac yna dros y Bwlch i Faesteg ac i bentref Llangynwyd. Croesawyd yr aelodau yno gan Diane Mort, a bu hi'n rhoi hanes Yr Hen Blwyf iddynt, ynghyd â stori Wil Hopcyn ac Ann Thomas, - a chael cyfle i weld bedd y ddau, - Ann yng nghanell yr Eglwys, a Wil o dan ywen yn y fynwent.

Cafwyd ychydig amser yng nghanolfan siopa MacArthur Glen cyn cychwyn am adre, a galw yn Llangennech am swper blasus.

Gwelir eisiau nifer o'r aelodau sydd arfer bod ar y tripiâu misol, ond yn methu a dod oherwydd anhwylderau; dymunir gwellhad llwyr a buan iddynt i gyd, gan obeithio cael eu cwmni eto yn fuan.

Bydd trip ola'r tymor ar y 14eg o fis Medi yn mynd i Abertawe ac i'r Mymbls. Enwau i Yvonne, 480590.



Yng nghwmni Sali Mali aeth plant Ysgol Feithrin Gwenog ar Daith Gerdded Noddedig. Ymunwyd â hwy gan rai o blant Ysgol Llanwenog, rhieni ac athrawon. Roedd eu taith yn mynd o'r ysgol i Gapel Brynteg a dychwelyd i ymuno â'i gilydd mewn picnic ar ben y daith.

Ffarmers

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Philip ac Abi, Tynreithyn, ar enedigaeth mab bach, Ifan Tomos – wŷr i Roy a Judy, Llysawel. Hefyd i Mark a Pamela Davies, Delfryn ar enedigaeth Harri – wŷr bach arall i Ceredig a Marian, Tanresger; ac yn olaf i Rhodri a Carys yng Nghaerdydd ar enedigaeth mab bach, Dafydd Caio Gomer – wŷr i Elfyn a Rowena, Troed y bryn.

Ymddiriedolaeth Anthony Nolan

Bu Heddwyn Jones, Derlwyn ddigon mentrus i ymweld â Chanolfan Gweithgaredd Llain yn Llanarth yn ddiweddar i godi arian tuag at Ymddiriedolaeth Anthony Nolan, elusen sy'n hybu trawsblannu mêr asgwrn. Yr her oedd croesi rhwng dau dŵr uchel ar lithryn gwifren zip, gorchwyl a gwbllhaodd yn llwyddiannus gan godi £550 tuag at yr Ymddiriedolaeth. Dymuna Heddwyn ddiolch i bawb a'u cefnogodd gyda'r her, a Chanolfan Gweithgaredd Llain am gael defnyddio'r offer.

Parc Chwarae'r Plant

Er gwaethaf gwrthwynebiad chwyrm oddi wrth rai unigolion – y rhan fwyaf ohonynt ddim yn byw yn lleol, ac yn sicr yn cyfrannu dim i fywyd cymdeithasol yr ardal - gwiredwyd y freuddwyd o gael safle ddiogel i'r plant i chwarae ar Barc Bro Fana, a chafwyd agoriad swyddogol y safle ar ddydd Sadwrn, yr 2ail o Orffennaf. 'Roedd tyrfa fawr wedi ymgynnull ar ddiwrnod braf, heulog, ac agorwyd y safle yn swyddogol gan Elfyn a Rowena Davies, Troed y bryn. Talodd Elfyn deyrnged i aelodau Cyngor y Neuadd, a'r gymdogaeth yn gyffredinol am eu cefnogaeth, eu dycnwch a'u gwaith caled, a braf oedd clywed sŵn y plant ar gae'r pentref unwaith eto. Cafodd yr offer ddigon o ddefnydd ar y dydd, ac mae brwdfrydedd y plant yn parhau. 'Roedd 'picnic yn y parc' wedi ei drefnu ar gyfer pawb yn dilyn yr agoriad swyddogol, ac yna cafwyd mabolgampau i gloi gweithgareddau'r prynhawn, cyn ymgynnull eto yn yr hwyr am y barbiciw, a chyfle i ymlacio a chymdeithasu. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dydd.



Jenkins, Min y Dderwen ac Eirwen Thomas, Tynrheol. Penblwydd hapus i'r tair ohonynt wrth ddathlu carreg filltir arbennig.

Eleni, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, cafwyd Brenhines y Rhosynnau a'i gosgordd i gychwyn gweithgareddau'r dydd. Y frenhines oedd Lisa Jones, Sŵn y nant, gyda Niah Bouvet, Y Drovers a Sara Jones, Sŵn y nant yn forwynion; Rhys Jones, Sŵn y nant oedd y Tywysog a Rhodri Morgan, Bryntwrch oedd y macwy. Diolch i'r plant am gyflawni eu dyletswyddau mor hwylus. Cafwyd cystadleuaeth dda yn y Carnifal, ac yn amlwg, tipyn o waith wedi mynd i mewn i'r paratoi. Felly hefyd y mabolgampau, gyda chystadlu brwd a thipyn o hwyl. Enillwyd y Cwpan er cof am Elin Mair am y ferch orau dan 6 oed yn y mabolgampau gan Niah Bouvet, Y Drovers, a chwpan her Clwb y Groesffordd am y cystadleuwr gyda'r mwyaf o bwyntiau dan 16 oed yn mynd i Bryn Morgan, Sŵn y nant. I gloi'r gweithgareddau, cafwyd twrnament pêl-droed. Ar y nos Sul, cynhaliwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Kevin a Nicola Morgan, a'r enillwyr eleni oedd Gwyneth Richards a Doreen George. Diolch i'r rhai hynny a fu wrthi yn paratoi ar gyfer yr amrywiol weithgareddau, ac i bawb am eu cefnogaeth parod.

Neuadd Bro Fana

Mae Cyngor y Neuadd wedi bod yn paratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y gaeaf gan gychwyn gyda Noson Caws a Gwin ar yr 17eg o Fedi. Cynhelir noson 'Rasus Parlwr' yn Y Drovers ar yr 11eg o Dachwedd, a byddwn yn croesawu Gary a Siân Jones, Cwmann yn Llywyddion y noson. Ar y 14eg o Dachwedd, bydd Alan Leech o Lanfair Clydogau yn rhoi hanes Dan Jenkins, cymeriad dylanwadol a fu'n Brifathro yn Ysgol Llanycrwys o 1898 – 1920. Bydd rhagor o weithgareddau yn cael eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf.

Ar y 1af o Hydref, cynhelir Cyngerdd yn y Neuadd, wedi ei drefnu gan Gôr Cwmann a'r Cylch gydag Aled Edwards ac Eleri Owen Edwards, Cilycwm; Kees Huysmans o Dregroes, a Parti Bois Dyffryn Cothi yn cymeryd rhan. Mae elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Ymchwil Cancr ac Ambiwllans Awyr Cymru. Bydd tocynnau ar gael oddi wrth aelodau'r Côr, a Dai's Diner yn Llambled.



Carnifal a Mabolgampau

Cynhaliwyd y Carnifal a Mabolgampau blynyddol ar y 13eg o Awst, ac hyfryd oedd croesawu Elgan a Mary Jones, Tremafon yn Llywyddion y dydd. Mae gan Elgan gysylltiad agos â Ffarmers, wedi ei fagu yn Dolaugwynion, ac fel ei dad gynt, yn aelod ffyddlon o Gyngor y Neuadd. Mae gan Mary hefyd gysylltiadau teuluol ag ardal Ffarmers yn mynd yn ôl sawl cenhedlaeth, ac mae'n gwasanaethu yr ardal fel Clerc Cyngor Cymuned Cynwyl Gaeo. Gan ein bod eleni yn nodi pedwar ugain mlynedd ers agor y Neuadd, gwahoddwyd tri o blant yr ardal sydd hefyd yn dathlu eu pedwar ugain, i ymuno â ni fel gwestai arbennig – Gwyneth Davies, Maesisaf; Annie

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr

Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bydd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

Cellan



Yn y Fishers' Arms yng Nghellau ceir arddangosfa o luniau a brasluniau o'r bobl leol. Mae'r gwaith brasluniau yn eiddo i Eve Johnston, 19 oed o Lamed tras bod y lluniau paent gan Roger Leworthy, Cellan. Yma ceir llun o 29 o gymeriadau wedi'u paentio ganddo.

Capel yr Erw, Cellan 1811-2011

Mae'r Capel yn dathlu dau canmlwyddiant sefydlu'r achos eleni.

Cynhelir **oedfa** i ddathlu'r achlysur
ar **Ddydd Sul Medi 11eg am 2 o'r gloch.**

Bydd Mr Lyndon Lloyd, Beulah, yng ngofal y gwasanaeth.
Croeso cynnes i bawb.

Cinio i ddathlu'r dau canmlwyddiant

yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan
ar **Nos Wener, Medi 23ain am 7 o'r gloch.**

Y siaradwr gwâdd fydd y Prifardd T. James Jones, (Yr Archdderwydd)
Archebwch eich lle drwy gysylltu â'r ysgrifenyddes
Miss Eirios Jones, Felindre, Cwmann. Pris - £20.
Croeso i bawb! Dyddiad cau Medi 17eg 2011.

Alltyblaca

18 oed

Ar ddiwedd mis Gorffennaf dathlodd Aled Llŷr Lewis, 1 Bro Teifi ei benblwydd yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Priodas Arian

Yn ystod mis Awst dathlodd Gary ac Elin Watkins, 1 Caedabowen eu Priodas Arian. Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau.



Daeth tyrfa lu i Ffêt Ardd a gynhaliwyd yng nghartref Sarah Humphreys-Jones, Fron Gelli, Alltyblaca, er budd Sefydliad y Galon cangen Llambed a Llanybydder. Cynhaliwyd y digwyddiad ar ddydd Sadwrn ac fe'i agorwyd yn swyddogol gan Lywydd y dydd sef Chris Saunders. Cyflwynodd Lucy Smith flodau i Mrs Humphreys-Jones fel arwydd o werthfawrogiad.

Yn y llun o'r chwith Chris Saunders; Selwyn Walters, Llywydd y Pwyllgor lleol; Mrs Humphreys-Jones; Ann Davies, Trysorydd; Lucy Smith; Jenny Bracher, Ysgrifenyddion ac Aneurin Jones, Cadeirydd.

Dathlu

Bu dathlu mawr yn Llysbarcud yn ddiweddar. Mi gafodd Owen radd Bsc yn Addysg Gorfforol o UWIC Caerdydd a Rhodri Msc yng Nghemeg o Brifysgol Bryste. Mae Rhodri wedi cael swydd dros dro yn Aberhonddu yn ymchwilio i'r berthynas rhwng blodyn y Cennin Pedr a'r afiechyd creulon Alzheimers (efallai i chi weld adroddaid o'r cysylltiad rhwng y ddau ar raglen deledu Country File ychydig wythnosau yn ôl) a Owen wedi mynd i drafael am 6 mis i Awstralia a Seland Newydd er mwyn gweld rhai o gemau rygbi Cwpan y Byd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau!

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Maggie Hughes, Nythfa yn dilyn ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Aelwyd Newydd

Croeso i Gellan i Mr a Mrs Stuart Davies a'r teulu i'w cartref newydd, Nantfach, Cysgod y Bryn. Gobeithio eich bod wedi setlo erbyn hyn ac yn mwynhau byw allan yn y wlad.

Adeiladu

Braf gweld fod John a Joan Moss, Penbryn, Llambed, wedi dechrau adeiladu cartref newydd yng Nghellau. Mae Joan, gynt o Nythfa, Cellan yn dod yn ôl i'w gwreiddiau. Pob lwc i chi dau efo'r adeiladu.

Rhowch eich Hanesion ar Gof a Chadw a Dewch yn Rhan o Archif Amgueddfa Wlân Cymru

Mae Amgueddfa Wlân Cymru yn gwahodd pobl i'r Amgueddfa ar Ddydd Mawrth yr 20fed o Fedi rhwng 10.30yb a 3.30yh i rannu hanesion, lluniau, llythyron neu unrhyw beth arall sydd gennych, 'sdim ots pa mor fach neu fawr ydynt, i'w rhoi ar gof a chadw.

Does dim rhaid i'r darn fod am y diwydiant gwlan ond gall fod am eich hardal, yn straeon personol, am bobl, am fusnesau, atgofion, y gymuned neu unrhywbeth sydd yn ddiddorol i chi.

Bydd yr holl wybodaeth wedyn yn cael eu cofnodi mewn gwahanol ddulliau a'u digido ac yna yn dod yn rhan o gasgliadau'r Amgueddfa a'u harchifo. Bydd popeth y byddwch yn dod gyda chi yn cael eu dychwelyd i chi'n syth, ar y diwrnod. Bydd y dogfennau yn cael eu cofnodi trwy eu llungopio, dynnu eu lluniau neu creu fideo ohonynt ac yna eu digido. Bydd cyfle i chi ddysgu defnyddio'r offer hyn a chofnodi'ch dystiolaeth eich hun. Prosiect yw hwn sy'n cael ei redeg gan Culturenet Cymru ac yn cael ei gefnogi gan Cymunedau 2.0 trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a chynllun Ewropeaidd ERDF.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu yma.

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



*Arbenigedd lleol
Polisiâu at bopeth
Prisiau cystadleuol*

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FFW,**
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi'n reol gan
Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-deddfau cyfnewt yswiriant,
o dan Brif Cofrestru, 2005/06

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

10fed Medi 2011

Llywydd: Mr Elfyn Williams, Idole

Sioe, Cystadlaethau CFfl, Arddangosfa Adar
Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid
Prin, Bar, ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y
bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llamed

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /

07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn

10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

**Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur**

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

Llanbedr Pont Steffan

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Brian, Heini a'r plant, Deffrobani ar farwolaeth mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl sef Mrs Dorothy Thomas, Hendre Rhys, Llanarth [gynt o fferm Ffynnon Rhys, Gorsgoch].

Cymorth Cristnogol

Bu casgliad Cymorth Cristnogol yn llwyddiannus eleni eto. Diolch i'r gwirddfoddolwyr o bob Capel ac Eglwys a fu allan yn casglu o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos. Gwerthfawrogwn eich parodrwydd i ymgymeryd â'r gwaith er mwyn ceisio cynorthwyo y tlawd a'r anghenus yn y trydydd byd yn fawr iawn. Cyfanswm y casgliad oedd £3365.18. Diolch o galon i bawb.

Blodau

Llongyfarchiadau i Lamed am yr arddangosfa wych o flodau yn y dref, y flwyddyn orau eto.

Eglwysi Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, Bethel, Silian a Chaersalem, Parc y Rhos

Cynhelir Oedfa Arbennig yn Noddf ar y 25ain o Fedi 2011 am 2 o'r gloch y prynhawn i ddathlu hanner can mlynedd gweinidogaeth ein Cyn-Weinidog y Parchedig Athro D. Hugh Matthew MA, BD, Mphil, DD yn y Cylch uchod. Darperir lluniaeth wedi'r oedfa. Croeso cynnes i bawb!

Genedigaeth

Llongyfarchwn Beryl a Jos Davies ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y trydydd tro. Ganwyd Briallen Ann (Bria), plentyn cyntaf Eurfyl a Jenny ar y 4ydd o Awst, 2011.

Sioe Llamed

Cafwyd diwrnod da yn Sioe Llamed eleni. Y Llywydd oedd Mr a Mrs Chris Saunders, LAS. Roedd cystadlu brwd ym mhob adran a llawer o bobl lleol wedi ennill gwobrau. Canlyniadau'r prif gwobrau yn y babell - Crefftau Gwlad: Andrew Jones, Pentrebach; Blodau: Gwyn Williams, Llanybydder; Adran yr Ardd: Aeron Davies, Cribyn; Coginio: Bethan Davies, Cribyn; Plant: Sara Davies, Llanfair Clydogau, Rebecca Miller, Llanfair Clydogau a Sam Jenkins, Castell; Ffermwyr Ifanc: Elen Powell, Clwb Cwmann.

Gyrfa Chwist Cartref Hafan Deg

Ar 3ydd o Awst cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Iorwerth Evans, Llanybydder yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af. Ray Jenkins, Llanybydder, 2il. Peter Jones, Llamed, 3ydd. Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach. Merched: Cydradd 1af. Mary

Evans, Llanwnnen a Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach, 2il. Ceri Lloyd, Ffostrasol. Carden Miniature: Dynion. Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach, Merched. Nancy Davies, Llamed. Bwrw Allan: Enillwyr – Edward Lockyer, Hafan Deg a Nancy Davies, Heol y Wig, Llamed, Ail – Beryl Roach, Felinfach a Gwendoline Jones, Llanybydder. Diolchodd y trefnydd Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth.

Gyrfa Chwist Cartref Hafan Deg 17eg o Awst gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybydder yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af. Gwen Davies, Llanwnnen a Iorwerth Evans, Llanybydder, 2il. Breian James, Trelech. Merched: 1af. Ifan P. Jones, Aberarth, 2il. Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach, Cydradd 3ydd. Cathrina Davies, Aberaeron a Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. Carden Miniature: Dynion. Peter Jones, Llamed, Merched. Sara Humphreys, Alltbylacca. Bwrw Allan: Enillwyr – Peggy Davies a Beryl Roach, Ail. Mari Evans, Llanwnnen a Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach. Bydd y Gyrfa oedd Chwist mis Medi ar nos Fercher 14eg a'r 28ain. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan

Estynnir dymuniadau gorau am wellhad buan i Iona Warmington, gynt o Lamed sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd yn ddiweddar. Brysia wella Iona yw'r neges oddi wrth dy ffrindiau i gyd yn ardal Llamed.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod misoedd yr haf.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa ar fore Sul 21 Awst i oedfa arbennig yng ngofal aelodau Bethel Silian, Caersalem Parcyrrhos a Noddfa.

Croesawyd pawb yn gynnes iawn yn enwedig Elan yn dilyn ei salwch, gan John Morgan cyn iddo offrymu gweddi agoriadol. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Owena Uridge a June Williams, cyhoeddwyd yr emynau gan Irene Price, Irene Lewis ac Alwyn Roberts a gweddiwyd gan Avanna Evans. Cyflwynwyd datganiad swynol o'r emyn "Efengyl Tangnefedd" gan Alwena a Llinos ac roedd hwn yn gyflwyniad hyfryd i anerchiad Janet. Cafwyd ganddi neges amserol a gafaelgar ac fel rhan o'r anerchiad darllenodd emyn

addas iawn o waith Beryl Davies un o'n haelodau ar y testun "Heddwch".

Diolchodd Alun Williams i'r aelodau i gyd oedd wedi cymryd rhan, i Llinos am ei gwasanaeth wrth yr organ ac yn olaf ond nid y lleiaf i Janet am ei chyfraniad gwerthfawr hithau. Cytunai pawb mai da oedd cael dod at ein gilydd i gyd-addoli mewn oedfa fendigedig.

Bedyddwyr Gogledd Teifi

Aeth llond bws o aelodau Eglwysi Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi ar drip ar Sul hyfryd o haf i ardal yr emynyddes Ann Griffiths. Cawsom bicnic mewn llecyn hyfryd ar lan yr afon yn Nolanog cyn mynychu Capel Coffa Ann Griffiths i gynnal oedfa ar y cyd gydag eglwysi'r Wyddgrug yng ngofal ein Gweinidog y Parch Jill Tomos. Braff oedd gweld y capel bach yn orlawn. Darllenwyd rhan o'r Gair gan ein Gweinidog ac offrymwyd gweddi gan y Parch Huw Powell Davies yr Wyddgrug. Cyhoeddwyd yr emynau gan Megan Jenkins, Mesach Williams ac Alan Jacob o gylch Gogledd Teifi.

Yn ystod yr oedfa pleser o'r mwyaf oedd dilyn taith ysbrydol Ann Griffiths drwy lygaid Ann Gittins. Roedd ei brwdfrydedd yn heintus a chafwyd cyfle hefyd i wrando ar sawl cân allan o'r sioe gerdd Ann oddiar gryno ddisg - gwyh iawn. Cafwyd canu gorfoleddus i eiriau Ann Griffiths "Er mai cwbl groes i natur yw fy llwybyr yn y byd" ar y dôn Blaenwern i gloi oedfa fendithiol iawn - profiad i'w drysori am byth. Teimlem fel petai'r diwygiad wedi cyrraedd Cymru unwaith eto. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet.

I Ddolwar Fach wedyn a phrofiad arbennig arall yn ymweld â chartref yr emynyddes cyn mynd i hen gapel John Hughes sef Pontrobert sydd erbyn hyn yn amgueddfa ond mae'r pulpud gwreiddiol yn dal yn ei le. Daeth y diwrnod i ben gyda phawb yn mwynhau cinio dydd Sul ardderchog yn y Marine yn Aberystwyth.

Talodd Janet ddiolch haeddiannol i'n Gweinidog am drefnu ein hymweladau â'r Gogledd, i Dewi

Glanafon am drefnu'r bws a'r bwyd, i bawb am eu cefnogaeth ac yn olaf ond nid y lleiaf i Alan y gyrrwr am fod mor ofalus ohonom ar hyd heolydd cul a throellog ardal Ann Griffiths. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus a chofiadwy a'r tywydd braff yn goron ar y cyfan.

Adran Llamed

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yr Adran yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr o dan arweiniad Mr Islwyn Rees, pan gafodd yr aelodau cyfle i brofi eu sgiliau wrth gymryd rhan mewn Helfa Drysor. Cafodd pawb lawer o hwyl! Yna roedd Barbicw i gloi yr holl weithgareddau amrywiol a difyr y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i'r sawl sydd wedi cefnogi'r Adran eleni ymhob ffordd, ond yn arbennig i Anthea am ei gwaith diflino dros y blynyddoedd.

Dyma gyfle i ni holi am gefnogaeth unrhyw rieni hen neu newydd i ymuno â'r Tîm sydd yn trefnu gweithgareddau, er mwyn cynnig cyfle i'r bobl ifanc arbrofi a dysgu sgiliau newydd ac i gael hwyl o dan awen yr Urdd o fewn Adran Llamed.

Bydd yr Adran yn ail-gychwyn ym mis Medi. Croeso i bawb!

Ysgol Sul Noddfa

Yn dilyn seibiant haeddiannol dros fisoedd yr haf bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau nos Wener 9 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Mae'r newid o fore Sul i nos Wener oherwydd gêmâu rygbi a nifer o weithgareddau eraill wedi bod yn llwyddiant mawr. Diolch yn fawr i'r plant am eu ffyddlondeb ac i'r rhieni sydd mor barod i gymryd eu tro yn wythnosol i gynorthwyo yn yr Ysgol Sul.

Nos Fercher 7 Medi bydd y plant hynaf a'r bobol ifanc yn cyflwyno adloniant yng Nghynadlled Genedlaethol Senana Cymru ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn cymryd rhan yn Oedfa Ddathlu hanner can mlynedd ordeinio'r Parch Hugh Mathews yn y cylch ar 25 Medi. Hefyd mae dyddiad cwrdd diolchgarwch y plant yn agosau. Felly edrychwn ymlaen at dymor prysur a llwyddiannus arall.



Aelodau eglwysi Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi yn ymlacio ar y prom yn Aberystwyth yn dilyn eu hymwelad ag ardal Ann Griffiths.

Llanbedr Pont Steffan



Y beirniaid, Cadeirydd Cyngor Ceredigion, Catherine Hughes, a Maer Llambled, Hag Harries yn coronni Cerys Lewis, Brenhines y Carnifal a'i morynion oedd Amy Green a Jessica McDonagh, a'r gweision bach oedd Joseph a Evan Rhun Jones.



Sara Elan Jones, Araul, Cwmann yn ennill y wisg orau yng Ngharnifal Llambled yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau i dîm dan 11 oed Llambled a'i hyfforddwraig Claire ar gyrraedd y rownd derfynol yn y twrnament a gynhaliwyd yn Llambled yn ddiweddar. Gwnaeth Sam Brammeld ennill tarian chwaraewr y twrnament.



Cododd Taith feicio nodedig Cangen Principality Llambled £744 hyd yn hyn i'r elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Teithiodd y 5 seiclwr a arweiniwyd gan Nia Richards o Lambled i Aberaeron yn ystod mis Awst. Yn y llun gwelir y seiclwyr (o'r chwith) Carys Wilson, Julian Evans, Nia Richards, Nerys Richards and Aled Richards, ynghyd â 3 o staff Principality Mari Slaymaker, Ann Warner, and Abby White. Dymuna Nia ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a'r cwsmeriaid am eu cyfraniadau.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, stello a lliwio,
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Masnachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewiss.co.uk

Helyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau
mewn awyrgylch
Gymreig a chartrefol. Cewch
ddewis eang o fwyd cartref blasus
a chwrw da.

*Croeso cynnes oddi wrth
Geraint, Eiddwen a'r teulu.*

Arbenigwyr mewn bariau
symudol at unrhyw achlysur
allanol a dawnsfeydd ysgubor.

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A


Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Emyr Evans; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd
y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans.
Cyfarfu'r Cyngor ar 11 Gorffennaf 2011 yn Neuadd
Gymundol Llanllwni.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Diolchodd i bawb a fu yn casglu sbwriel o gwmpas y plwyf
ar 17 Mai 2011.

Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones i'r cyfarfod.
Cadarnhaodd y byddai gorsaf yr heddlu yn Mhencader
yn cau yn ystod yr wythnosau nesaf, ac y byddai ef yn
gweithio o orsaf Llandysul o hyn allan.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi
cael eu harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Roedd rhai manylion i'w cwblhau eto cyn i'r maes
chwarae gael ei drosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor
Bro. Cadarnhawyd bod y perchen wedi derbyn y ffurflenni
priodol. Ni fu datblygiadau pellach.

Penderfynwyd gan y Cynghorwyr yn unfrydol bod angen
newid y drefn ar dudalen 122 o'r cynllun arfaethedig. Barn
y Cyngor oedd na ddylid codi melinau gwynt yn nes na
2km i dai annedd. 1.5km oedd y pellter awgrymwyd yn y
Cynllun. Byddai'r Cynghorwyr yn astudio'r Cynllun yn
ofalus yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn rhoi gwybod am
unrhyw fanylion eraill yr oeddent am wneud sylwadau
amylnt i'r Clerc cyn y dyddiad cau.

Penderfynwyd cefnogi: Cylch Meithrin Llanllwni, Ysgol
Llanllwni, Marie Curie, Gofal mewn Galar, Clonc, Shelter
Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb
a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Dyddiad y cyfarfod nesaf:
12 Medi 2011 yn Neuadd Gymunedol Llanllwni.

Cyngor Tref Llambled

Maer: Hag Harris; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref
a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.
Cyfarfu'r Cyngor ar 30 Mehefin 2011 yn Neuadd yr
Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau ynghyd â gwesteion o Brifysgol
y Drindod Dewi Sant i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd
gweddi gan Selwyn Walters.

Nododd Mr Cennydd Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol
Eiddo ac Ystadau'r Brifysgol fo uniad y ddau sefydliad
yn 2010 wedi bod yn llwyddiannus. Derbyniwyd grant o
£5m gan y Cyngor Cyllido i hwyluso'r gwaith ac i wella
gwasanaethau i fyfyrwyr ar gampws Llambled. Aeth yn
ei flaen i ddisgrifio rhai gwelliannau pellach a oedd yn yr
arfaeth: trefnu Mynedfa newydd i'r Prif Lyfrgell; gwella
cyfleusterau a gwedd Neuadd y Celfyddydau; gwella
gwedd y fynedfa bresennol yn Rhes yr Orsaf; ymgynghori
â Cadw am symud y clawdd ffin sy'n estyn ar hyd Stryd
y Coleg; disgwyliad cwblhau'r maes chwarae pob tywydd
cyn diwedd Gorffennaf; byddai gwelliannau i'r Neuadd
Chwaraeon ac yng nghyffiniau'r cyrtiau tenis; bwriedir
'Cynllun y Llynnoedd' ger yr hen faes hoci pe gellid denu
cyllid digonol; roedd canolfan newydd sef Canolfan y Llais,
eisoes wedi'i sefydlu.

Manylwyd ar safleoedd eraill yn y dref a oedd yn eiddo
i'r Brifysgol. Byddai'r Brifysgol yn cydweithio â'r Cyngor
Lleol ac â'r Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gofal iechyd
trwy'r Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig ar
hen safle Ysgol Ffynnonbedr. Byddai cysylltiadau'n cael eu
ffurfio gyda Choleg Ceredigion er mwyn datblygu safle'r
hen Ganolfan Gwaith.

Roedd y Brifysgol wedi gwneud cais i Gyngor
Ceredigion i ystyried cynnwys Cae Pontfaen yn safle
posibl ar gyfer creu gwaith/safle mân-werthu yn y Cynllun
Datblygu Lleol. Sicrhawyd aelodau cyngor y dref nad
oedd cynlluniau i'r perwyl hwn eisoes wedi'u paratoi gan
y Brifysgol ar gyfer y safle ond y bwriad oedd sicrhau
hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol. Roedd cyngor y dref yn
gadarn yn erbyn newid statws y cae yn y Cynllun Datblygu
Lleol ac anogwyd pawb arall a wrthwynebai i ddangos
eu hanfodlonrwydd i'r Cyngor Sir. Mae'r Brifysgol yn
disgwyl croesawu ryw 600 o fyfyrwyr eleni sy'n golygu
y byddai 1,400 yn astudio ar y campws erbyn Medi 2011.

Mae'r ffioedd dysgu (£9,000) wedi'u pennu am y flwyddyn
academaidd 2011-12. Roedd aelodau cyngor y dref yn falch
i gylwed am y gwelliannau a oedd wedi'u cwblhau ar y
campws a diolchwyd i gynrychiolwyr y Brifysgol am eu
presenoldeb.

Nodwyd bod pasgedi crog yn y dref wedi'u difrodi.

Byddai tocynnau am barcio mewn mannau amhriodol yn dal
i gael eu rhoi i fodurwyr gan yr heddlu a byddai swyddogion y
Cyngor Sir yn cadw llygad ar y meysydd parcio.

Roedd baw cŵn yn dal i achosi problemau yn y dref a
phenderfynwyd tynnu sylw'r warden at hynny.

Bu sawl lladrad yn y Brifysgol yn ddiweddar. Roedd
lleidr wedi'i ddal a'i garcharu.

Gwnaed cais i Gyngor Ceredigion amcangyfrif cost
gwella cyflwr yr ardal o gwmpas Ffynnon Sgwar Harford.
Penderfynwyd cefnogi Carnifal Llambled a Ffair Fwyd
Llambled. Nodwyd bod y chwyn sy'n tyfu hwnt ac yma ar
hyd y dref yn cael ei ddifa'n raddol.

Cyngor Tref Llambled

Maer: Hag Harris; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref
a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.
Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Gorffennaf 2011 yn Neuadd yr
Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Offrymwyd gweddi gan
Selwyn Walters.

Ar ran y Cyngor, anfonwyd dymuniadau gorau am
adferiad buan at y Cyng. Derek Wilson.

Croesawyd Julia Andrew, Rheolwr Gofal Crossroads,
Ysbyty Bronglais i annerch y Cyngor. Mae mudiad
Crossroads yn darparu cefnogaeth i ofalwyr yn ogystal ag
i'r rheini sy'n derbyn gofal.

Criw o bobl ifanc oedd yn gyfrifol am ddifrodi'r pasgedi
crog yn y dref yn diweddar; bu'r camerâu cylch cyfyng o
gymorth i'r heddlu wrth iddynt ymchwilio i'r achos. Bu
rhaid galw am wasanaeth heddlu arfog yn dilyn lladrad
yn Llansawel yn ddiweddar. Bu sawl achos o ladrata o
fusnesau yn y dref a ffenestri wedi'u difrodi yn ogystal.
Er bod Sgwar Harford a Pharc-yr-Orsedd yn barthau di
alcohol, roedd yfed alcohol yn dal yn broblem yn y parthau
hyn. Mae'r heddlu yn gwneud arolwg o achosion o yfed
dan oedran yn yr ardal. Atgoffwyd aelodau'r cyngor mai
101 yw'r rhif i'w alw pan nad yw'r achos yn achos brys.
Roedd ceir wedi'u parcio ar y palmant yn creu anhawster ar
Ffordd y Porthmyn.

Roedd amryw welliannau naill ai ar y gweill neu wedi
eu cwblhau yn Mountwalk, Lôn Picton, Maes Parcio'r
Rookery a Heol Cambrian. Nid oedd yr anhawster
cyfreithiol parthed y Cwmins wedi ei ddatrys hyd yma.

Oherwydd ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Maesyderi, ni
allai'r Cyngor Sir gefnogi cynllun i greu llwybr beicio.

Cefnogwyd yr ymgyrch i ddiogelu dyfodol Gorsaf
Gwylwyr y Glannau yn Abertawe. Roedd gobaith am
gynnydd yn hanes Neuadd Fictoria ac roedd y Llwybr
Treftadaeth wedi ei fabwysiadu, bellach, gan Hanes
Llambled. Penderfynwyd cefnogi Pwll Nofio Llambled a
Shelter Cymru.

Cyngor Cymuned Llanybi

Cadeirydd: Keith Edwards

Cyfarfu'r Cyngor ar 3 Awst 2011 yn y Neuadd Goffa.

Etholwyd Daniel Boyle yn is-gadeirydd.

Nodwyd fod y gofeb a fu yn yr Hen Ysgol yn Silian wedi
ei chodi, bellach, ar fur yr eglwys yn Silian.

Bwriedir cynnal arolwg o gyflymder traffig yn ardal
Pont Creuddyn. Dywedodd Daniel Boyle y byddai ef yn
glanhau'r arwyddion ym mhentref Pont Creuddyn.

Penderfynwyd anfon llythyr at Fwrdd Iechyd Hywel Dda
yn cwyno am y llawdriniaethau sydd yn cael ei gohirio yn
Ysbyty Bronglais ac achwyn am yr amser y mae ambiwlans
yn cymryd i gyrraedd y pentref mewn argyfwng. Bu
cynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod gyda'r Cyngor Sir
ynglŷn â chynnal a chadw y priffyrdd yn ystod y gaeaf.
Derbyniwyd cais cynllunio i 2 Maesyfelin a chadarnhawyd
cais Blaenant. Derbyniwyd gohebiaeth ynglŷn â dathlu
Jiwbili Diamwnt y Frenhines 2-5 Mehefin 2012.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Meryl Jenkins
Oed: 26
Tref: Llanbedr Pont Steffan
Gwaith: Staff-nyrs
Gŵr: Rhydian Jenkins

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae teenage mutant ninja turtles gyda fy mrawd a bois Caegwyn. Cawson ni lot o sbort yn tyfu lan gyda'n gilydd.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Rhydian yn treial rhoi tabledi 'wormo' cŵn i fi i gael gwared 'hangover' yn lle paracetamol. Buodd pobl yn gofyn i fi os oeddwn i yn teimlo'n 'ryff' am spel ar ôl hynny.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Cadwa ddigon pell o Mount Walk Garage!!!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Smurfs go pop.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Nyrs fel fy mod i'n gallu helpu pobl.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Dreifo beic cwod dros ben coes fy mrawd achos roedd y sbardun wedi stico. Doeddwn i ddim yn gallu stopo'r beic a triodd e safio fi, ond er gweitha ei ymdrech es i 'fflat owt' mewn i'r tŷ gwair!

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg bachu a glywaist?
Rhydian yn treial cael fy sylw yn garej Mountwalk tra fy mod yn gofalu ar ôl fy nghefnder, gan ddweud "odd daps fflashi fel'na 'da fi". Gwellodd y brawddegau ar ôl hynny achos briodes i e 10 mlynedd yn hwyrach!!

Pwy yw dy arwyr?



Trevor Caegwyn (Tad-cu). Ma fe wastod yn siarad sens.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Gwybod mod i'n gallu neud gwahaniaeth ym mywydau pobl wrth helpu nhw trwy amser caled.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Gweitho shifts nos!!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Byw yn agos i deulu a ffrindiau da.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pob un yn gwybod busnes pawb!!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg wrth gwrs!

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Cael gwared y bobl sy'n nychu'r

wlad wrth hawlio budd-daliadau heb ishe!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Siopa, siopa a mwy o siopa!

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ffordd nôl o gino gwaith wythnos diwetha ar bwys Charles Footman. Un gwydraid o win yn ormod wi'n credu!!!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Graddio fel nyrs yn 2006.

Ac yn bersonol?
Priodi Rhydian yn mis Medi 2009.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Chwarae pêl-droed i dîm merched Felinfach.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

Roedd tad-cu wastod yn dweud os fydd rhywun yn mynd o dan dy groen, cno dy dafod achos y person calla sy'n cerdded bant!!

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Gadael cartref i fynd i'r coleg.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Caredig, Cariadus, Doniol.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Mini Cooper.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Rhydian, wrth gwrs.

Beth yw dy ddiod arferol?
Potel o 'Rose' Blossom Hill os yw ar gael.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Wncwl Mel (Melvyn Evans).

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
'Photo albums', achos wi'n cael cymaint o atgofion da wrth edrych nôl ar luniau.

Y gwyliau gorau?
Teithio rownd y byd gyda Rhydian ar ein mis mel.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Thailand, De America ac Ynys Bora Bora

Arferion gwael?
Pecian yn uchel ar ôl bennu bywyd. Mae'n hala Rhydian yn wallgo!!

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Mod i'n gallu darllen meddyliau pobl.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Sion Wyn Jones
Felinfach

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		1		9	8	7	
			4			9	
		8		7			6
	9			1	3		8
6			2	5			1
5			8			2	
	3				5		
	8	6	9			7	

Atebion Swdocw mis Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i: Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder, a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin.

9	4	7	1	2	5	3	8	6
5	6	1	9	8	3	2	7	4
2	8	3	6	4	7	1	5	9
1	5	4	2	6	9	7	3	8
6	7	8	3	5	1	4	9	2
3	9	2	8	7	4	5	6	1
4	1	9	5	3	6	8	2	7
8	3	6	7	1	2	9	4	5
7	2	5	4	9	8	6	1	3

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan



Tîm Criced Ysgol Ffynnonbedr yn ennill cystadleuaeth Criced Ysgolion Cynradd Cylch Llambod a chwaraewyd ar gae chwarae'r Coleg. Gyda nhw mae Edward Payne eu hyfforddwr.



Cynhaliodd Sefydliad y Merched Ceredigion ei Gŵyl Bêl-droed flynyddol i ysgolion Cynradd ar gaeau chwarae Tregaron lle bu 28 tîm yn cystadlu. Tîm Ffynnonbedr gipiodd y Cwpan yn Adran y Bechgyn. Yn y llun gwelir ei hathro, Wyn John.

Ffynnonbedr

Dymunwn yn dda i Mrs Eirlys Jones ar eu hymddeoliad a diolch iddi am eu gwasanaeth i'r ysgol dros y blynnyddoedd. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Wenna a Steven ar achlysur eu priodas dros yr haf.

Cyflwynir "Cwpan Cyfeillgarwch" yn rhoddedig gan Mr a Mrs Huw Jenkins yn flynyddol i ddisgybl sydd wedi cynorthwyo eraill a dangos caredigrwydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Eleni Christina Smith o flynyddyn 6 a dderbyniodd yr anrhydedd - da iawn ti Christina.


Daeth clod i'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Wrecsam wrth i'r grŵp dawnsio cyfrwng cymysg dderbyn yr ail wobr. Diolch i Sally am eu hyfforddi ac i Anita a Wendy a fu wrth y gwisgoedd. Diolch hefyd i'r plant a'r rhieni am eu cefnogaeth yn mynychu'r eisteddfod a hynny adeg gwyliau'r haf hefyd!

Hyfryd oedd gweld Sally Saunders sy'n dysgu dawns yn yr ysgol yn ymddangos ar y rhaglen enwog "Tonight's the night" ac yn cael cyfle i ddangos ei dawn drwy ddawnsio a chanu fel rhan o sioe "Billy Elliott yn y West End yn Llundain. Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yn adran y cystadlaethau cartref yn Sioe Llambod eleni. Llongyfarchiadau i'r canlynol:-

Arlunio 1af Elizabeth Foot, 2ail Alexander Casiday a 3ydd Tomos Godfrey Creu Cerdyn penblwydd 1af Elan Jones Llawysgrifen 1af Alis Williams 2ail Lionie Mason 3ydd Daniel Lewis a Carys Choi. Derbyniodd Elizabeth Foot fathodyn ychwanegol gyda chlod arbennig am ei llun. Diolch i'r holl disgyblion a fu'n cystadlu ac i'r staff am eu paratoi.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.



Prif Swyddogion Ysgol Gyfun Llambod 2011-12

Y prif fachgen yw Daniel Edwardes a Carwen Richards yw'r prif ferch. Eu dirprwyon yw (o'r chwith) Ruth Davies, Lisa Thomas, John Janes ac Adam King.



Charlie Roper, disgybl Blwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Llambod a enillodd y Fedal arian yn Rownd derfynol Genedlaethol Karate o dan 15 ac i rai o dan bum troedfedd yn Birmingham yn ddiweddar. Hefyd daeth Charlie yn ail ac ennill y fedal arian ym Mhencampwriaeth Cymru yn y gystadleuaeth Kata o dan 15.



O'r chwith - Amy Wright AAA; Daniella Beaumont AAB; Elen Medi Thomas A*A*A; Elli Dafydd A*ABB; Lowri Pugh Davies AAB; Thomas Merrow Smith A*ABB; Chatherine Frankton A*AA; Charlotte Evans A*AB; Ben Lake A*A*AA; Gemma Evans A*AA; Catrin Langford AAB.



Cari Lake, Sioned Hatcher, Lizzie Douglas, Beca Creamer, Delun Davies, Meg Edwards, Elin Gwyther, Marian Thomas, Rhys Davies, Vaughan Evans, Ben Baddeley a Rowan Thomas.

Llangybi a Betws

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sioned Evans, 5 Godre'r Coed, Olmarch ar basio arholiad piano Gradd 1 yn ddiweddar. Mae Sioned yn cael ei hyfforddi gan Mrs Alwena Williams, Abermeurig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Eirian Griffiths a'i merch Caryl, Glandulas am eu llwyddiant ysgubol yn y Sioe Frenhinol. Cawsant dair wobwr gyntaf, pencampwr ac is-bencampwr y Sioe a marciau uchaf yn y Dosbarth y Gwartheg Duon Cymreig. Hefyd yn Sioe Aberhonddu cawsant yr anrhydedd o fod yn Bencampwr y Sioe. Bu Mrs Griffiths yn barnu yn Sioe Eglwys Fach. Rhagorol - daliwch ati.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mr Rhydian Lloyd, Olmarch Uchaf ac i Mr Dilwyn Pugh ar ôl iddynt dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella eich dau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Lynne Williams yn ei phroffedigaeth lem ar farwolaeth sydyn ac annisgwyl iawn ei gŵr Graham. Roedd ef yn weithiwr diwyd ac yn gwneud llawer i gadw y pentref yn daclus ac fe welir ei eisiau mewn llawer mudiad gwirfoddol.

Cyrrddau Diolchgarwch

Fe gynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon ar Fedi 21ain am 2.00y.p ac fe bregethir gan Miss Beti Griffiths, Llanilar. Un oedfa fydd.



Lansiwyd 'Taith y Cilgwyn' yn Neuadd Ysgol y Dderi, Llangybi yn ddiweddar, Yn ogystal cafwyd eitemau gan blant yr ysgol a threfnwyd paned cyn ymadael i weld y plac y tu allan i Gapel y Cilgwyn.

Hanes "Taith y Cilgwyn" yw stori am grŵp o eglwysi yn yr ardal rhwng Aberaeron, Tregaron a Llambled, o'r 16eg ganrif hyd heddiw. Rhan o'r stori yw hynt a helynt y gweinidogion: yr enwocaf ohonynt, efallai, oedd Phylip Pugh, o'r Hendre, Blaenpennal. Cyfaill a chynghorwr Daniel Rowland oedd ef. Un arall oedd Thomas Grey, capel Llwynpïod. Trwy gynllun "Darganfod Ceredigion" gosodwyd Byrddau Gwybodaeth newydd ar bob safle yn y Daith i ddweud yr hanes. Dewch am dro i weld dros och eich hunain beth yw'r stori. Cewch dafflen yn eich Canolfan Dwristiaeth leol dan y teitl "Llwybrau Ffydd Ceredigion".

Yn y llun-o'r chwith - Parch Cen Llwyd; Dafydd Wyn Morgan, Swyddog Twristiaeth Gwledig; Parch R E Humphreys; Cyng Odwyn Davies; Jenny Hall; Alwena Williams; Paul Sambrook a'r Cyng Catherin Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir.

Mae Oedfa Diolchgarwch Ebenezer ar Fedi 28ain a'r pregethwr gwadd fydd y Parch Richard Lewis ac fe fydd yr oedfa am 6:30y.h.

Ar Hydref 2il nos Sul cynhelir gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys Sant Cybi am 7y.h. Y genadd fydd y Parch Bill Fillery, Llambled.

Ar Hydref 7fed am 7y.h. cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Betws. Croeso cynnes i baw i bob oedfa.

Merched y Wawr

Fe aeth y gangen a'i ffrindiau i ymweld â Gerddi Aberglasne ac yno y treuliyd prynhawn dedwydd iawn yn mwynhau y gerddi ac hanes diddorol y plas gan dywysydd gwybodus iawn. Ychydig o siopa wedyn cyn dychwelyd adref a galw ar y ffordd yn yr Hydd Gwyn yn Llandeilo lle y cawsom swper blasus iawn a chroeso cynnes.

Fe fydd y gangen yn cwrdd ar Fedi 21ain yn Ysgol y Dderi. Hwn fydd y cyfarfod cyntaf y tymor newydd ac fe fydd yn gyfarfod agored i bawb. Croeso cynnes iawn i ŵyr a gwragedd. Y gŵr gwadd fydd y Bon. Andrew Jones, Felindre. Dewch am baned a sgwrs a thipyn o hanes lleol.

Swyddfa Bost

Mae Is-bostfeistres y Swyddfa Bost yn Llangybi wedi ymddeol ac felly mae yna Fan Bost yn ymweld â'r pentref ddwy waith yr wythnos. Gwelir y fan ger siop y pentref ar brynawn Mawrth rhwng 2.00-3.00y.p. ac o 11.45y.b. a 12.45y.p. ar ddydd Gwener. Cefnogwch y fenter yma er mwyn i'r gwasanaeth barhau.



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Bro'r Dderi yn eu cinio blynyddol yng Ngwesty Tyglyn Aeron yn ddiweddar.



Clwb Bro'r Dderi yng nghystadlaeth 'Band yr Ardd wedi'i Ailgylchu' yn y Sioe Frenhinol.



EIRIANFA CARYL hefer 30 mis oed a ddangoswyd gan Eirian Griffiths, Glandulas, Llangybi oedd Pencampwr Benywaidd Gwartheg Duon Cymreig ac yn is-bencampwr y Brîd yn y Sioe Frenhinol yn ddiweddar.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Rhifyn mis Hydref
Yn y Siopau
Hydref 6ed
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Medi 26ain



Mis Medi Melys

Braf yw cael bod nôl yn y gegin ar ôl 'hoe yr Haf'! a hynny mewn da bryd i ddal 'Tymor y Corn Melys'. Dyma'r amser i wneud y gorau o dymor yr 'india corn melys'. Mae blasu'r corn aeddfed yn un o bleserau'r Hydref cynnar. Ei fwyta'n ffres sydd orau. Mae'r siwgwr naturiol sydd yn y corn yn dechrau troi i starts (starch) y funud y caiff ei dynnu. Felly tynnwch o'r cae neu prynwch yn lleol.

Manteision corn melys – mae'n dda am gadw lefel siwgwr y gwaed yn rheolaidd a chan fod llawer o 'starts' ynddo mae'n cael ei dreulio'n araf; mae'n cynnwys llawer o haearn a photasiwm hefyd.

Mwynhewch 'Y Mis Melys'

Pob hwyl
Gareth

Corn Melys a Menyn

Cynhwysion

Ychydig o ddail coriander
100 gm 4 oz o fenyn
Sudd a chroen un leim
4 corn melys.

Dull

1. Rhowch y dail, menyn a'r leim mewn prosesydd bwyd a'u cymysgu
2. Tynnwch y dail o'r corn melys a gwasgarwch y gymysgedd menyn drostynt, yna rhowch y dail yn ôl dros y cyfan..
3. Rowch mewn ffwrn ar wres o 220° C; Fan 200° C; Nwy 9 am 20 munud.

Gweinwch gyda mwy o'r menyn.

Bara corn melys a chaws

Cynhwysion

100gm 4 oz o fenyn
270 ml o laeth enwyn neu iogwrt
2 ŵy
150 gm 10 oz o flawd plaen
25 gm 1 oz o siwgwr
2 llond llwy de o bowdwr pobi
½ llond llwy de o bowdwr soda
1 llond llwy de o halen
85 gm 3 oz o gorn melys
100 gm 4 oz o gaws wedi'i gratio
1 chilli wedi'i dorri'n fan
4 shalotsyn wedi'i sleiso'n denau

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200° C; Fan 180° C; Nwy 6. Toddwch y menyn mewn padell, cymysgwch y llaeth enwyn neu'r iogwrt â'r wyau. Yna mewn powlen ychwanegwch y blawd, siwgr, powdwr a'r halen, yna i mewn a'r hylif, y corn melys, caws, ac hanner y chilli a'r shalots.
2. Rhowch mewn padell ffrio a sgeintiwh mwy o'r chilli a'r shalots dros y cyfan.
3. Pobwch am 25 – 30 o funudau nes bod y cyfan yn euraidd
4. Gweinwch yn gynnes.

Ydych chi'n gwybod?

Llaeth enwyn yw'r hylif sydd ar ôl wedi corddi menyn. Mae iddo flas ychydig yn sur, tebyg i flas iogwrt. Mae rhai siopau yn cadw'r llaeth enwyn yn y cwpwrdd oeri. Os na allwch ddod o hyd iddo defnyddiwch laeth cyffredin gan ychwanegu lemnw iddo neu defnyddiwch iogwrt.

Gareth Richards o 'Cegin Gareth' gyda'i scones hufenog a mefus blasus yn Ffair Fwyd Llanbed.



Colofn Dylan Iorwerth

Cofio cymydog

Cadw gartre'r oedd hi ers blynnyddoedd ac, ers amser, anaml iawn y byddech chi'n gweld Jenny y tu allan i Ffinant Cottage, ond roedden ni'n gwybod ei bod hi yno ac roedd hynny'n gysur.

Roedd yna deimlad chwithig wrth fynd heibio i'r bwthyn bach yn ystod yr wythnosau diwetha' gan wybod ei fod yn wag a hithau yn yr ysbty; mi fydd hi lawer yn odiach bellach, a hithau wedi mynd.

Hyd yn oed rhwng ei phedair wal, roedd hi'n rhan bwysig o'i chymdeithas, yn gyswllt rhwng llawer ac yn dal i gymryd diddordeb byw yn hynt a helynt yr ardal.

Nid brenhines y fro, falle, ond rhyw fam frenhines ar ein cymdogaeth fach ni ym mhen pella' Alltyblaca. Ac mae'n siŵr y byddai hi'n chwerthin ar y fath ddisgrifiad.

Gwerinwraig oedd Jenny – Sarah Jane a rhoi ei henw swyddogol, neu Mrs Thomas a rhoi ei henw parch. Roedd wedi gweithio'n galed ar hyd ei bywyd a, than y blynnyddoedd diwetha', yn cadw gardd werth ei gweld ac yn gofalu am ychydig o ddefaid.

Mae llawer yn ei chofio'n reidio beic mawr rhwng Alltyblaca a Llanbed, a hynny ym mhob tywydd. Fe fu'n cario papur newydd ac yn gweithio mewn siop chips. A phawb yn adnabod Jenny.

Dw i'n ei chofio hi'n hel atgofion am bethau felly mewn amgylchiadau rhyfedd, rhyw flwyddyn go dda yn ôl. Pump ohonon ni, gymdogion, yn hwyr iawn y nos, yn eistedd o gwmpas ei gwely yn Ffinant Cottage yn yfed te ac yn bachu ar gyfle prin i sgwrsio, bawb ynghyd.

Cyn i chi ddweud dim, roedd yna esboniad am yr amgylchiadau – roedd Jenny wedi cwmpo a chriw ohonon ni wedi mynd i weld a oedd hi'n iawn. Hyd yn oed yn ei gwendid, roedd wedi tynnu pawb at ei gilydd. Ar waetha'r godwm – a'r awr annaeorol - roedd wyneb Jenny'n goleuo wrth siarad am yr hen ddyddiau.

Ac roedd ei hwyneb hi'n gallu goleuo – y llygaid yn tanio, weithiau, neu'n fflachio gan ddireidi. A phan oedd yn ei hwyl, roedd ffordd Jenny o siarad yr un mor lliwgar â'i barn. Os na fyddech yn plesio, fe gaech chi wybod eich hyd a'ch lled.

Ond, yn nodweddiadol o lawer o bobol sydd wedi gorfod byw'n ofalus, doedd neb haelach i'w chael na Jenny. Os aethoch chi yno gyda rhodd, fe ddeuech oddi yno gyda mwy, a phlant yn ffefrynau arbennig. Doedd ceisio gwrthod ddim yn gweithio a doedd gwrthod Jenny ddim yn hawdd, beth bynnag.

Ac roedd hi yno. Yn barod ei chymwynas ac yn cadw llygad cymdogol ar bethau. Fyddai'r un lleidr na chreadur amheus yn cael llawer o lwc yn y gymdogaeth acw tra oedd Jenny ar ei thraed ac, fel llawer o bobol sy'n gaeth i'w cartrefi, roedd hi rywsut yn gwybod am bob newydd lleol ymhell o'n blaenau ni.

Dw i'n edrych allan trwy'r ffenest y funud yma a gweld y tŷ gwyngalchog ar ael y rhiw. A chofio fel y byddai'r mwg yn codi'n ddeddfol o'r simnai bob bore, haf a gaeaf, fel petai i ddweud wrthon ni i gyd fod popeth yn iawn.

Heddiw, mae'r tŷ gwag yn arwydd o'r bwlch ar ei hôl.

Rhyfeddod yr Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymddangos ymhell yn ôl ac mae rhan go dda ohoni siŵr o fod yn ôl yn Llanybydder unwaith eto.

Roedd yna sawl wyneb cyfarwydd ar y maes yn Wrecsam a sawl trip wedi mentro i fyny i'r gogledd-ddwyrain – heb sôn am y carafanwyr.

Y rhyfeddod mawr yw fod dim ar ôl. Ynghanol yr enillwyr lleol – a llongyfarchiadau i bawb – roedd yna un criw a roddodd brawf go iawn ar gadernid y Maes a'r Pafiliwn.

Os oedd Parti Llefaru Sarn Helen wedi cael hwyl ar yr adrodd, fe ddylech chi eu gweld nhw'n dathlu!



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

Llanwnnen

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Carol Davies, Parc-y-wilco ar gael ei wneud yn Bennaeth Ysgol Llanilar yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ti.

Anrhydedd

Fel ardal llongyfrachwn Picton Jones, Fferm Drefach ar ei lwyddiant yn y Sioe Frenhinol gyda'i ddoddefnod ac hefyd am dderbyn clod ac anrhydedd y Sioe Frenhinol FRAgS.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â John Jones, Cornicyll ar golli ei frawd sef Willie a fu farw yn Ysbyty Bronglais. Cydymdeimlir gyda'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu colled hefyd.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Geraint Bowen, Delyn Aur ar ei ddyweddian â Elen Samuel, o Benybont ar Ogwr. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Pwyllgor Lles

Cynhaliwyd gwibdaith yr haf ar ddydd Mercher, Mehefin 29ain. Aeth y trigolion am wibdaith ar fws G & M, Llambed i Aberhonddu a'r cyffiniau. Dechrau o Lanwnnen am 9.00y.b. ar ddiwrnod braf a phleser oedd gweld yr amaethwyr yn brysur wrth y gwair a silwair ar hyd y daith yn olygfa odidog o'r bws.

Yn gyntaf aros yn Llanymdyfri am de deg neu frecwast i rai! Y Cynghorydd Haydn Richards yn estyn croeso i bawb ac esbonio trefniant y dydd.

Yna ymlaen dros Sugar Loaf, Afon Gwy a Mynydd Epynt. Golygfa hyfryd dros filltiroedd lawer. Y Cyng Aneurin Davies, Tynffynnon yn rhoi gwybodaeth ar yr uchel seinydd am hanes wahanol leoliadau ar y daith, hyn yn ddiddorol iawn. Gweld mynydd Penylan yn y pellter a phasio Ffrwd Wen – tyddyn

bychan ar dop y mynydd, yno hefyd gwelwyd y Cadets yn ymarfer.

Felly, cyrraedd Aberhonddu am hanner awr wedi hanner dydd. Tref fechan hyfryd. Erbyn hyn yn barod i ginio ac yna ymweld â'r Eglwys gan gynnwys yr Eglwys Gadeiriol, y canal, yr amgueddfa a llawer lleoliad prydfarth eraill.

Dechrau'r daith am adref tua 5 ar hyd y briffordd yn ôl i Llanymdyfri a chael swer blasus yn y King's Head ac yna mynd am adref. Ac yna ar y bws tynnwyd y raffl. Diolch i bawb am eu rhoddion tuag at y gwobrau.

Roedd Mr Dafydd Williams, Dolaugwyrdion wedi cynnig gwobr o £5 i'r person a fyddai wedi dyfalu milltiroedd y wibdaith. Yr enillydd oedd Mrs Irene Jackson a oedd wedi dyfalu yn gywir sef 90 milltir.

Diolchwyd i Mrs Gwen Davies, Mrs Ann Hughes a Cyng Haydn Richards am drefniant y dydd gan gadeirydd y pwyllgor sef Cyng Haydn Richards.

Diolchodd y Cyng Aneurin Davies i Cyng Haydn Richards am drefnuu lleoliad y brecwast a'r swper.

Pawb wedi mwynhau diwrnod hyfryd a chyrraedd nôl yn Llanwnnen yn flinedig a diogel am 9.00y.h.

Cydnabyddiaeth

Dymuna Jack, Cornicyll, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar.

Penblwyddi

Dathlodd Linda Jones, Brynheulog benblwydd arbennig ar ddiwedd mis Awst ac yna ar ddechrau mis Medi bydd Meinir Ebbsworth, Brynamlwg yn dathlu penblwydd arbennig hefyd.

Penblwydd Hapus i Deloni, Glas y Dorlan ar ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar Fedi 16eg.

Mwynhewch y dathlu ferched!!



Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf ar ôl iddi ennill cystadleuaeth y Tywyswyr Ifanc yn y Sioe Frenhinol. Tipyn o gamp i ennill pan fod 26 yn cystadlu! Da iawn ti Heledd.



Picton Jones, Llanwnnen yn derbyn Tystysgrif Cymrawd y Sioe Frenhinol gan y Cadeirydd Peter Alexander, am ei gyfraniad i ddatblybu'r bridio ac arddangos o'r dofendod ac i sicrhau parhad y brîd traddodiadol drwy Brydain.



Golff Mini Masters Cymru

Llongyfarchiadau i Sioned Hâf Davies, Glas y Dorlan ar ennill y rownd gyn-derfynol [Adran 12+] yng nghystadleuaeth 'Mini Masters Cymru' a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff Caerfyrddin yn ddiweddar.

Caiff Sioned nawr y cyfle i gystadlu yn y rownd derfynol yn y Celtic Manor, Casnewydd ar Hydref 25ain. Pob lwc i ti.

Silian



Enillodd Aron Dafydd, Gwarffynnon, Silian yr ail wobwr am yr unawd i fechgyn 12-16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Cynhaliodd Sefydliad y Merched Ceredigion ei Gŵyl Bêl-droed flynyddol i ysgolion Cynradd ar gaeau chwarae Tregaron lle bu 28 tîm yn cystadlu.

Tîm Llanwnnen gipiodd y Cwpan yn Adran y Merched ac fe'u gwelir yn derbyn y Cwpan gan Polly Morgan.

Llanllwni



Oen Fenyw Texel las a enillodd gyntaf yn ei dosbarth yn y Sioe Frenhinol o eiddo DL a BWH Jones, Beili Bedw, Llanllwni.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i James a Rhian, Erw Deg, Maesycrugiau ar enedigaeth mab bach ar Awst 11eg - Osian Ifan. Wyr cyntaf i Alan a Jane Powell, Gwarcwm a wyr bach arall i Alan a Ann Bellamy, Hendy a chefnder newydd i chwarae i Lowri a Rhys.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Emma Harris-Jones, Golwg y mynydd am raddiomewn Hanes ac Addysg 2:1 ac i Rhian Evans, Bwlchgwynt am raddio 2:1 yn Hanes. Pob dymuniad da i'r ddwy.

Llongyfarchiadau i Antony Jones, Golwg y mynydd a Caryl James, Neuadd Cross ar eu dyweddian yn ddiweddar.



Plant Ysgol Eglwys Llanllwni wedi eu llwyddiant yn ennill gwobr o £1,000 mewn cystadleuaeth genedlaethol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Cyflwynwyd y wobwr i'r ysgol yng Nghastell Caerffili. Dyma'r trydydd tro i'r ysgol ennill un o brif wobrau y gystadleuaeth yma. Teitl prosiect yr ysgol eleni oedd 'Harddwch ein Hardal'.

Paratodd pob dosbarth yn yr ysgol ar gyfer eu gwaith dosbarth trwy ymweld ag atyniadau lleol. Dechreuodd y disgyblion ieuengaf gyda'r ysgol ei hunan, a oedd yn dathlu ei 140 mlwyddiant. Roedd eu model mawr ac arddangosfa o ffotograffau yn adrodd ei hanes. Cerddasant i Gapel Nonni gerllaw, a thynnu llun collage ohono yn ddiweddarach. Buont yn ysgrifennu hefyd am fusnesau lleol a gwaith eu rhieni.

Trefnwyd taith fws undydd gan ddisgyblion iau i safleoedd hanesyddol yn y cyffiniau agos; yr eglwys sy'n dyddio o'r 12fed ganrif, hen orsaf reilffordd, tai o bwys lleol, a safleoedd cynhanesyddol ar y mynydd cyfagos.

Yn yr ysgol, rhoddasant gyflwyniad PwyntPwer ynglŷn â'r eglwys, ffrwyth chwilota yn y llyfr Bedydd, Priodasau a Marwolaethau. Crewyd arddangosfa am y tirnodau lleol gyda ffotograffau ac adroddiadau ysgrifenedig, a mapiodd y disgyblion y daith. Seiliwyd gwaith pellach ar lyfr cofnodion yr ysgol a chyfrifiad 1841.

Edrychodd y disgyblion tuag at y dyfodol hefyd trwy archwilio'r cynnig i leoli melinau gwynt ar y mynydd lleol. Dangosai model mawr eu maint anferth o'i gymharu â thŵr yr eglwys. Dosbarthwyd holiadur yn lleol a chafodd ei ddadansoddi gan y disgyblion.



Rhian Thomas, Llanybydder yn ennill y cyntaf gyda'i dafad Balwen

Colofn y C.Ff.I.



Haf yn llawn hwyl i G.Ff.I Sir Gâr

Llwyddiant yn y Sioe

Daeth Sir Gâr i'r brig wedi wythnos llawn o gystadlu yn y Sioe Frenhinol. Bu aelodau o Sir Gâr yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadleuthau dros y pedwar diwrnod yn cystadlu yn erbyn clybiau ar draws Cymru.

Ar ddiwedd Dydd Iau â'r diwrnod olaf Sir Gâr oedd ar y blaen ac yn cipio Tlws Undeb yr Amaethwyr Cenedlaethol am y 3edd flynedd yn olynol gyda 89 pwynt, dim ond un pwynt ar y blaen i Sir Frycheiniog a Gwent.

Diolch i holl hyfforddwyr a rhieni'r aelodau fu'n gefn i'r aelodau wrth baratoi tuag at gystadlu yn y Sioe.

Barnu Gwartheg Henffordd

Daeth Tîm Sir Gâr i'r brig yng nghystadleuaeth Barnu Gwartheg Henffordd. Yn y tîm:-

26 neu iau- Dafydd Lewis, C.Ff.I Dyffryn Cothi
21 neu iau - Angharad Francis, C.Ff.I Llanfynydd
18 neu iau - Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi

Fe wnaeth Dafydd Lewis ac Eirwyn Richards ennill teitl Unigolion gorau yn eu categori oedran ac fe ddaeth Angharad Francis yn 2ail.

Barnu Defaid Suffolk

Yr aelodau canlynol wnaeth gynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth y barnu defaid Suffolk:-

26 neu iau - Dafydd Lewis, C.Ff.I Dyffryn Cothi
21 neu iau - Elgan Thomas, C.Ff.I Llanfynydd
18 neu iau - Angharad Francis, C.Ff.I Llanfynydd

Clwyd oedd yn 1af fel tîm ond fe ddaeth Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi yn 2ail fel unigolyn dan 26 oed a Elgan Thomas, Llanfynydd yn 3ydd dan 21.

Cneifio

Dylan Davies, C.Ff.I Llangadog a Rhydian Thomas, C.Ff.I Cwmann oedd yn cynrychioli Sir Gâr yn y Cneifio.

Bydd y clybiau yn ail ddechrau unwaith eto dechrau mis Medi gyda'u nosweithiau agoriadol i groesawu aelodau newydd.

Am fwy o fanylion ynglŷn ag ymuno â'ch Clwb lleol yna cysylltwch â Swyddfa'r Sir ar 01267237693 neu e- bostiwch sir.gar@yfc-wales.org.uk.



Unawd ar unrhyw offeryn cerdd
1. Lowri Elen, 2. Gwawr Hatcher, Julianna Barker [absennol o'r llun].




Lowri Elen, Llambod enillydd 'Rose Bowl' Sialens Barhaol er cof am Mrs Ray Morgan.

Cwrtnewydd



Ceiliog Bantam Rhode Island Red o eiddo Paul a Bessie Williams, Clyncoch yn ennill y wobwr gyntaf y y Sioe Frenhinol.



Huw Evans, Cwrtnewydd gyda Phencampwr y Brîd, hwrdd dwy flwydd oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carys Griffiths, Fronddu gynt am wneud mor dda yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam a'r Fro yn ystod mis Awst a chyrraedd ffeinal Rhuban Glas David Ellis ar y dydd Sadwrn. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol – fe ddaw y Rhuban Glas rhyw ddydd!!

Bedydd

Bedyddiwyd Ela Mablen Griffiths-Jones merch Kevin a Carys Griffiths-Jones dan ofalaith y Parchedig Wyn Thomas ar Awst yr 20fed yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd.

Diolch

Hoffai Kevin, Carys ac Ela Mablen ddiolch o galon am yr holl anrhegion.



Priodwyd Carys Griffiths, merch Peter a Jean Griffiths, Fronddu a Kevin Thomas Sinnott Jones, mab Dewi a Mair Jones, Glanperis dan ofalaith y Parchedig Wyn Thomas a'r Awst yr 20fed yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd. Dathlwyd y wledd ym Mhlas Llanerchaeron.

Melinau Gwynt

Mae grŵp Achub Mynydd Llanllwni wedi cael haf prysur. Mae'r grŵp wedi ymateb i alwadau a ddaeth i law am luniau yn dangos maint y difrod y gellid ei achosi i'r olygfa ar Fynydd Llanllwni. Mae'r grŵp yn ymfalchïo bod modd dangos sut olwg fyddai ar y Mynydd petai cwmni RES yn cael caniatâd i godi 21 o dyrbinau gwynt arno.

Teimlwn hefyd ei fod yn gyfrifoldeb arnom i rannu'r wybodaeth â holl drigolion y fro. Bwriad Grŵp Achub Mynydd Llanllwni, yn naturiol, yw diogelu ar gyfer y dyfodol un o'r ychydig lecynnau o dir gwyllt agored sydd ar gael yn rhydd i'r cyhoedd yn Sir Gâr. Mae'r cyfrifoldeb ar bawb yng ngogledd y sir yn fawr. Mae'r cyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau ein cynghorwyr sir a'n cynllunwyr sirol a chenedlaethol yn fwy fyth.



Nid codi bwganod ynghylch yr olygfa o safle unigol yn Abergiar, Llanllwni yw bwriad y delweddau a ddangosir y mis hwn, ond cyflwyno'r union sefyllfa'n onest a gweladwy. Rydym yn eu rhannu â phawb ac yn cynnig cyfle i bob perchen tŷ ym mhlwyf Llanllwni gael delwedd o'r hyn a welid o'r ardd gefn petai cwmni RES yn cael parhau â'r cynllun.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad cwmni RES. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk

Pencarreg

Cyntaf!

Llongyfarchiadau i Sian Elin, Muriau Gwyn am ennill y Fonolog yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011.

Hyfryd oedd gweld ei pherfformiad gafaelgar ar y teledu a hithau mor ifanc. Da iawn ti Sian Elin, rwy'n siwr y cawn dy weld yn serenu ar y teledu yn fuan.

Diolch

Dymuna Sian Elin Williams, Muriau-Gwyn, Pencarreg, ddiolch am yr holl alwadau ffôn, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wedi iddi ennill cystadleuaeth y Fonolog 12-16 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011.

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Rhai o enwau Bro Eisteddfod Wrecsam (Rhif 35)

Tref Wrecsam yn Sir y Fflint fydd a groesawodd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni a dynnid o enwau o ogledd ddwyrain Cymru a fydd yn cael sylw y tro hwn.

Ystyr 'flint' mewn Saesneg Canol oedd 'craig galed'. Nid dyna'r ystyr arferol a roir gennym ni i'r gair hwnnw bellach, yn enwedig gan y daearegwyr yn ein mysg. Mae'n arferol cyfeirio at y dref fel 'Y Fflint' er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng y dref ei hun ac uned weinyddol 'Sir y Fflint'.

Adeiladwyd castell y Fflint ar fraich garegog sy'n estyn i afon Dyfrdwy. Dyma oedd 'y graig'; mabwysiadwyd yr 'y', y fannod, gan yr enw Cymraeg, yr enw Ffrangeg (le Flint, 1277), a chan y cyfieithiad Ffrangeg o'r enw (Le Chaylou, 1277).

Mae Afon Dyfrdwy yn un o'r enwau cynharaf i'w cofnodi ym Mhrydain. Mae'r afon yn codi ger Llanuwchllyn ac yn llifo drwy Lyn Tegid, Glyn Dyfrdwy a Chaer cyn cyrraedd y môr. Mae enw'r afon i'w chysylltu â'r elfennau dwyfol neu oruwchnaturiol sy'n cael eu cysylltu ag enwau afonydd. Mae'n debygol fod yr enw gwreiddiol yn golygu 'dŵr dwyfol' neu 'dŵr y dduwies'. Honnir mai Aerfen oedd enw'r dduwies, duwies ryfel, ac fe'i cysylltir hi â Llyn Tegid yn ogystal. Gwedd ar ffurf Frythoneg yr enw yw Deva, a dyma enw'r gaer a sefydlwyd gan y Rhufeiniaid yng Nghaer; ffurf berthynol arall, yng ngwisg tafodiaith Mercia y tro hwn, yw Dee.

Elfen a ychwanegwyd yn ddiweddarach yw elfen gyntaf yr enw Dyfrdwy, sef 'dwfr' (dŵr). Ystyr Dyfrdwy felly yw 'dŵr y dduwies (Aerfen)'. Mae'r elfen 'dwy(w)' sy'n dynodi 'dwyfol' yn digwydd yn ogystal yn Dwyfor (sef,

afon ddwyfol fawr) sy'n codi yng Nghwm Pennant ac yn ymuno ag Afon Dwyfach (sef, afon ddwyfol fach) yn Llanystumdwy.

Ystyr yr enw Wrecsam yw 'dôl sy'n eiddo i Wryhtel'. Enw personol o gyfnod Hen Saesneg yw Wryhtel a daw'r ail elfen yn yr enw o'r Hen Saesneg 'hamm' sy'n dynodi 'dôl'.

Enwau personol a goffeir hefyd yn Whixall, Bettisfield a Cadney. Yr elfennau yn Whixall yw'r enw personol Eingl-Sacsonaidd Hwittuc a'r enw cyffredin 'halh' sy'n golygu 'cilfach'. Yr enw personol Eingl-Sacsonaidd Beda a goffeir yn Bettisfield (maes Beda). Eingl-Sacsoneg hefyd yw'r enw personol Cada a goffeir yn Cadney; mae'r elfen -ey yn yr enw hwn yn dynodi 'ynys' ac mae'n cyfeirio at lecyn o dir sych mewn corsdir. Yr un elfen a geir yn enwau Caldey a Ramsey yn Sir Benfro. Diflannu yn niwl y canrifoedd a wnaeth Wrytel, Hwittuc, Beda a Cada ond coffeir eu henwau yn yr enwau lleoedd hyn ym mro'r Eisteddfod.

Un o'r enwau mwyaf anghyffredin sy'n digwydd yn Sir y Fflint yw Cadole. Mae'n tarddu o'r Saesneg 'cat-hole'; dyna, yn wreiddiol, yr enw ar y twll y rhedai'r gadwyn oedd yn dal angor llong drwyddo. Ond datblygodd yr enw i ddynodi, yn ogystal, y peirianwaith a ddefnyddid i godi a gollwng dynion a bwcedi trwy fynedfa gyfyng i waelodion y gweithfeydd plwm. Catshole oedd yr enw yn 1795 ond newidiwyd yr enw'n fwriadol yn 1959 o Catshole i Cadole oherwydd teimlid nad oedd y cysylltiad â phen ôl cath yn ddigon sedet ar gyfer cymdeithas fonheddig ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Gobeithio i bawb fwynhau'r Steddfod.

Ar hyd a lled y fro



Grŵp Cyfrwng Cymysg Ysgol Ffynnonbedr - 2il yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro.



Aelodau Cymdeithas Bethel Parcyrrhos ar daith i'r Epynt.



Dorian Morgan, Stryd y Bont, Llambod (gynt) a urddwyd i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni i Urdd y Llenor.

Clwb Clonc

Medi 2011

£25 rhif 478 :

Mrs Avril Williams,
Y Fedw, Cwmann.

£20 rhif 376 :

Guto Morgans,
Tangar, 12 Lôn Clychau'r Gôg,
Abergwili.

£15 rhif 189:

Mrs Mair Green,
Nantgwyn, Heol Llanfair, Llambod.

£10 rhif 220 :

Elaine Davies,
Pen-y-nant, Llanwnnen

£10 rhif 451 :

Mrs Hedydd Thomas,
Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambod.

£10 rhif 425 :

Mrs Mair Thomas,
Maes-y-meillion, Dryslwyn,
Caerfyrddin.



Aelodau o CFFI Llanwenog yn cynrychioli Ceredigion ac yn ennill gystadleuaeth Diogelwch Ffordd yn Adran y CFFI.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau


Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf ac wedi ymweld ag ambell i sioe leol ac yn barod ar gyfer mynd nôl i'r ysgol i weld eich ffrindiau i gyd. Efallai bod rhai ohonoch wedi cael llwyddiant mewn ambell i sioe wrth dynnu lluniau ac ati. Da iawn chi.

Bues i mewn ambell i sioe yn yr ardal ac er bod nifer o blant wedi tynnu lluniau ar gyfer y cystadlaethau, mae lluniau sy'n dod drwy'r post ataf i llawer iawn mwy lliwgar.

Y mis hwn mae clod mawr yn mynd i Chloe-Marie a Jamie Jones o Bencarreg a Betsan Mai Dai o Landysul am lun arbennig. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Gwenllian Llwyd, Croesor, Cwmann. Llongyfarchiadau mawr i bawb a chofiwch fynd ati i liwio llun o'r bws ysgol y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Medi 26ain.

Hwyl am y tro,

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**



Enw:

Cyfeiriad:



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
<http://cis.ceredigion.gov.uk>

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

Sioe Gorsgoch



Buddugwyr Sioe Gorsgoch ac CFFi Llanwenog yng nghwmni'r Llywyddion, sef Mr a Mrs Gwilym Jenkins, Glynmeherin.



Guto Ebbsworth, Llanwnnen, a ddaeth yn fuddugol am greu ffurf o drafnidiaeth o bethau wedi'u hail-gylchu.



Elin Haf Jones, Maesycrugiau, a wnaeth ennill yr adran 26 oed neu iau, yn dangos ei bwgan brain yn Sioe Gorsgoch.

Sioe Llambod



Enillwyr y grŵp o dri Rhyngfrid oedd y Belgian Blues o eiddo Williams, Tynllyn, Llanwnnen.



Meinir Green, yn arddangos ei dafad Llanwenog yn Sioe Llambod – Pencampwraig Adran Defaid Llanwenog.



Enillydd cystadleuaeth am 'Y Stondyn Fasnach' orau yn y Sioe oedd D. L. Williams, Homecentre, Stryd Fawr, Llambod. Yn y llun mae: Mrs. Gwen Davies - Ysgrifenyddes, Maer y Dref, Cllr. Hag Harries - Beirniad, Mr a Mrs. Chris Saunders – Llywydd a Mr a Mrs D. Smith – Cadeirydd Siambur Fasnach. Hefyd Mrs. Manda Evans, aelod o staff a'r perchennog Mr. D. L. Williams.

Margaret Jones, Cwrtnewydd a enillodd y Cwpan am y marciau uchaf yn Adran y Gwinoedd a chyfiaith. Enillodd hefyd wobwr arbennig am un o'i gwinoedd.



Sioe Cwmsychpant



Llywydd y Sioe Mr Gwyn Williams ac enillwyr y Cwpannu yn Sioe Cwmsychpant.


HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.
£60.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



Unawd dan 6 [cyf] 1. Ffion Davies, Llanybydder

Lois Mai Jones, Cwmsychpant a'i chwpanau am yr Unawd a'r Llefaru 6 – 9 oed cyfyngedig.

Llefaru 6 – 9 [cyf] 1. Lois Mai Jones, Cwmsychpant; 2. Sioned Fflur Davies, Llanybydder; 3. Nia Beca Jones, Blaencwrt; 4. Megan Jones, Blaencwrt.

Unawd 6 – 9 [cyf] 1. Lois Mai Jones, Cwmsychpant; 2. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch; 3. Sioned Fflur Davies, Llanybydder; 4. Nia Beca Jones, Blaencwrt; 5. Megan Jones, Blaencwrt a Joseph Saunders, Cwrtnewydd.



Unawd 9 – 12 [cyf] 1. Charlotte Saunders, Cwrtnewydd; 2. Ella Evans, Felinfach; 3. Elin Davies, Cwmsychpant.



Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed - 1. Ella Evans, Felinfach; 2. Elin Davies, Cwmsychpant; 3. Mari Lewis, Cwmann.

Unawd 12 – 16 [cyf] 1. Lowri Elen, Llambed; 2. Gwawr Hatcher, Gorsgoch; 3. Dewi Uridge, Silian.

Llefaru 12 – 16 [cyf] 1. Lowri Elen, Llambed; 2. Gwawr Hatcher, Gorsgoch; 3. Meleri Davies, Cwmsychpant.



Mari Lisa Davies, Heol Bronwydd, Caerfyrddin a enillodd y goron yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan gyda phlant y ddawns flodau o Ysgol Llanybydder.



Tlws Ieuenctid Celf a Chrefft – Lowri Pugh-Davies, Llangybi.